Cymwys ar gyfer y dyfodol

Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwynir at sylw Cymwysterau Cymru
gan Ymchwil Arad a'r SCYA

Mehefin 2020

Qualified for the future
Cymwys ar gyfer y dyfodol

ymchwil arad research

NFER
National Foundation for Educational Research

Contents

Geirfa **3**

1. Cyflwyniad **4**

1.1 Gair am yr ymgynghoriad 4

1.2 Y dull dadansoddi 5

1.3 Gair am yr adroddiad hwn 6

2. Themâu trosfwaol **8**

3. Egwyddorion i lunio'r cymwysterau a gynigir yn y dyfodol **10**

3.1 Egwyddor 1: Cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru a'i gefnogi 10

3.2 Egwyddor 2: Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog 16

3.3 Egwyddor 3: Cymwysterau sy'n rhan o gynnig teg a chydlynol 21

3.4 Egwyddorion eraill 26

4. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol **30**

4.1 Cadw'r enw TGAU 30

4.2 Awgrymu sut gallai cymwysterau TGAU newid 34

5. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach **38**

5.1 Cymhwyster sy'n cefnogi datblygiad ac asesiad sgiliau ehangach 38

5.2 Awgrymu sut gallai'r Dystysgrif Her Sgiliau newid 43

6. Barn ar yr Asesiad Effaith Integredig **48**

6.1 Effeithiau rheoleiddiol 48

6.2 Effeithiau ar y Gymraeg a chydraddoldebau 50

7. Sylwadau pellach **59**

8. Y camau nesaf **62**

Geirfa

Acronym / gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
BTEC	Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg
CA2, CA3, CA4, CA5	Cyfnodau Allweddol 2, 3, 4 a 5
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

1. Cyflwyniad

Dadansoddiad yw hwn o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad cyhoeddus Cymwysterau Cymru, 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', a gynhaliwyd rhwng 18 Tachwedd 2019 a 7 Chwefror 2020. Hwn oedd y cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau y bydd Cymwysterau Cymru'n eu cynnal dros y ddwy flynedd nesaf. Nod y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yw bod yn sail i waith Cymwysterau Cymru i ailffurfio cymwysterau i ategu'r cwricwlwm newydd i Gymru.[1]

Comisiynwyd Ymchwil Arad a'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a llunio adroddiad amdanynt.

1.1 Gair am yr ymgynghoriad

Yn yr ymgynghoriad hwn, bu Cymwysterau Cymru yn holi barn ar agweddau allweddol ar ei ddull o bennu'r cymwysterau a fydd ar gael i ddysgwyr 16 oed i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Amlinellodd Cymwysterau Cymru ei gynigion, sef:

- sefydlu cyfres o egwyddorion i ffurfio darpariaeth cymwysterau'r dyfodol;
- bod cymwysterau TGAU wedi'u hailwampio yn rhan ganolog o'r cynnig cymwysterau i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru; a
- chynnwys cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygiad ac asesiad y sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd yn rhan o'r cynnig cymwysterau.[2]

Mae'r ddogfen ymgynghori lawn, 'Cymwys ar gyfer y dyfodol', a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig ar gael ar-lein ar wefan Cymwysterau Cymru.

Bu Cymwysterau Cymru yn hyrwyddo ac yn cylchredeg yr ymgynghoriad drwy amrywiaeth o sianeli er mwyn hybu ymwybyddiaeth rhanddeiliaid. Yn ogystal â'r llwybrau confensiynol fel gwefan Cymwysterau Cymru, cylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol a'r consortia addysg rhanbarthol, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ychwanegol ledled Cymru. Ymhlith y rhain oedd digwyddiadau galw heibio cyhoeddus a gynhaliwyd mewn sefydliadau addysg a chyfres o ddigwyddiadau i bobl ifanc a gynhaliwyd ar ran Cymwysterau Cymru gan Plant yng Nghymru.

Darparwyd yr ymgynghoriad a'r cyfleoedd i ymateb mewn amryw fformatau: ymgynghoriad ar-lein, ymgynghoriad i bobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen. Roedd pob fersiwn yn cynnwys yr un cwestiynau ymgynghori craidd (wedi'u geirio yn y modd mwyaf priodol i'r gynulleidfa a fwriadwyd). Fodd bynnag, nid oedd yr ymgynghoriad i bobl ifanc na'r fersiwn hawdd ei darllen yn cynnwys y cwestiynau o'r Asesiad Effaith Integredig. Gallai'r ymatebwyr gael at yr ymgynghoriad ar-lein neu ar ffurf electronig (PDF neu Word) drwy wefan Cymwysterau Cymru, neu ar bapur, mewn print bras ac mewn Braille ar gais.

Cafodd Cymwysterau Cymru **667 o ymatebion** i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:

- 436 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad;

[1] Mae gwybodaeth gefndirol ar y cwricwlwm newydd ar gael ar-lein.
[2] Defnyddir y term 'sgiliau cyfannol' bellach yn y cwricwlwm newydd yn lle 'sgiliau ehangach'.

- 226 o ymatebion i'r ymgynghoriad i bobl ifanc;
- 2 ymateb i'r fersiwn hawdd ei darllen; a
- 3 ymateb a ddilynodd strwythur gwahanol i'r ymgynghoriad.

Ni atebodd pob ymatebwr bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Mae'r 667 ymateb felly'n cynnwys y rheini a atebodd nifer fechan o gwestiynau yn unig, yn ogystal â'r rheini a atebodd y rhan fwyaf o'r cwestiynau neu'r cwestiynau i gyd.

Yn y tabl isod, ceir trosolwg bras o'r gwahanol fathau o ymatebwyr.

Categori bras o ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Gweithwyr addysg proffesiynol *(yn cynnwys gweithwyr addysg proffesiynol a'r rheini sy'n cynrychioli sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch)*	313
Dysgwyr	264
Rhanddeiliaid addysg craidd *(yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, cyrff dyfarnu, undebau'r athrawon, rheoleiddwyr a chomisiynwyr, ac amrywiol gyrff cyhoeddus eraill)*	32
Rhanddeiliaid addysg ehangach *(yn cynnwys rhieni neu ofalwyr, aelodau etholedig, cyflogwyr neu gyrff cynrychiadol, aelodau o'r cyhoedd, amrywiol sefydliadau trydydd sector a'r rheini yr oedd gwell ganddynt beidio â dweud)*	58
Cyfanswm yr ymatebwyr	**667**

1.2 Y dull dadansoddi

Mae pob un o'r 667 o ymatebion a dderbyniwyd wedi'u hadolygu fel rhan o'r dadansoddiad. Rhoddwyd sylw i ymatebion heb eu cael drwy'r arolwg ar-lein yn yr un ffordd â'r rhai yn yr arolwg ar-lein. Bu'r bobl ifanc a fu'n rhan o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cyflwyno ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori naill ai ar-lein neu ar bapur, ac mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys. Nid oedd digwyddiadau ymgysylltu eraill yn rhan o ymatebion swyddogol i'r ymgynghoriad ac felly ni chawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad, er iddynt gynnig cyd-destun defnyddiol.

Dadansoddodd Arad a'r SCYA y 667 ymateb i gyd ar ran Cymwysterau Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys wyth **'cwestiwn caeedig'**, yn gofyn i'r ymatebwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion, neu'r effaith y disgwyliant i'r cynigion ei chael. Dadansoddwyd yr ymatebion hyn ac fe'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Yna cynhaliodd Arad a'r SCYA ddadansoddiad thematig o'r **ymatebion i'r 15 cwestiwn penagored** (cwestiynau a oedd yn caniatáu i'r ymatebwyr ysgrifennu sylwadau'n rhydd). Roedd y dadansoddiad thematig yn categoreiddio'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymatebwyr yn themâu cyffredinol.

- I ddechrau, adolygwyd **sampl o ymatebion** i bob cwestiwn a chydweithiodd y tîm ymchwil i ddatblygu fframwaith cyffredinol at ddadansoddi thematig. Roedd y fframwaith hwn yn nodi'r themâu allweddol sy'n debygol o gael eu dyrannu mewn

cwestiynau unigol, ac yn sicrhau cysondeb wrth gofnodi themâu tebyg ar draws gwahanol gwestiynau. Nid fframwaith gosodedig oedd hwn, ond un digon hyblyg i'w addasu a'i ddatblygu eto wrth i'r tîm ddadansoddi'n llawn bob ymateb i'r ymgynghoriad.

- I sicrhau cysondeb yn y dadansoddi, adolygwyd y sampl gychwynnol o ymatebion yn annibynnol gan ddau wahanol ymchwilydd. Daeth yr ymchwilwyr at ei gilydd wedyn i drafod eu canfyddiadau a chytuno ar y themâu i'w cynnwys yn y fframwaith dadansoddi a sut y dylid dehongli'r rhain. Sicrhawyd felly bod yr holl ymchwilwyr wedi deall yn gyffredin y ffordd i ddehongli ymatebion a datblygu dull codio cyson.
- Dadansoddwyd **gweddill yr ymatebion i'r cwestiynau penagored** gan ddefnyddio'r fframwaith codio a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod adolygu cychwynnol. Defnyddiwyd cofnod tystiolaeth (ar ffurf taenlen) i osod themâu allweddol ynghlwm wrth bob ymateb unigol. Roedd y cofnod hwn o dystiolaeth yn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn dadansoddi a nodi themâu yn gyson ac yn galluogi'r tîm i nodi cyffredinrwydd pob thema ac amrywiad ym marn y gwahanol gategorïau o ymatebwyr. Nodwyd nifer fechan o themâu allweddol ar gyfer pob cwestiwn yn ystod y cyfnod hwn, ond codwyd y themâu hyn fel arfer gan nifer fechan o ymatebwyr.

1.3 Gair am yr adroddiad hwn

Cyflwyna Adran 2 o'r adroddiad hwn drosolwg o themâu allweddol a gododd yn rheolaidd drwy gydol yr ymatebion i wahanol gwestiynau'r ymgynghoriad. Themâu lefel uchel yw'r rhain sy'n adlewyrchu materion trosfwaol a godwyd gan ymatebwyr.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Ymdrinia'r adroddiad â phob cwestiwn yn ei dro ac, fel y cyfryw, gall rhai themâu gael eu hailadrodd mewn ymatebion i wahanol gwestiynau. Os yw'n briodol, caiff y themâu a nodwyd eu rhannu'n rheini a godwyd gan ymatebwyr a oedd:

- Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i'r cynnig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lefel o gefnogaeth a fynegwyd gan y rheini a oedd yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, a oedd yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn caeedig.
- Yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o bryder am y cynnig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lefel o bryder a fynegwyd gan y rheini a oedd yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, a oedd yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn caeedig.

Mae cyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn caeedig a phob cwestiwn penagored yn amrywio'n sylweddol ac fe'i nodir ar ddechrau pob cwestiwn. Ar adegau, mae'n bosib nad yw'r canrannau a gyflwynir ar gyfer y cwestiynau caeedig yn dod i gyfanswm o 100% yn union, oherwydd bod y canrannau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno themâu allweddol sy'n codi amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Am fod y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr yn aml yn amrywio'n fawriawn, lleiafrif o ymatebwyr gododd bob thema yn gyffredinol. Daw'r dadansoddiad i ben â sylwebaeth fer am unrhyw wahaniaethau allweddol rhwng safbwyntiau gwahanol gategorïau o ymatebwyr (gan gadw mewn cof y gwahaniaethau yn nifer yr ymatebwyr ym mhob

categori).

Yn yr adroddiad, defnyddir y term ‘cymwysterau’ i gyfeirio at y cymwysterau hynny y mae Cymwysterau Cymru yn eu rheoleiddio, sy’n gymwys am gyllid cyhoeddus, ac sydd ar gael i ddysgwyr 16 oed.

Darparwyd cyfoeth o dystiolaeth bellach drwy’r ymatebion i’r ymgynghoriad sy’n cefnogi’r themâu hyn ac sy’n darparu manylion ychwanegol sylweddol. Rhannwyd pob ymateb unigol gyda Cymwysterau Cymru er mwyn ei ystyried ymhellach.

Drwy’r adroddiad i gyd, tynnwyd y themâu a’r pwyntiau a gyflwynir o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad na Cymwysterau Cymru. Mae’r adroddiad felly:

- yn rhoi crynodeb yn unig o’r farn a godwyd gan yr ymatebwyr eu hunain, nid barn cwmni ymchwil Arad a’r SCYA, na Cymwysterau Cymru;
- yn rhoi crynodeb o farn yn hytrach na dod i gasgliadau; ac
- yn cynrychioli barn ymatebwyr ni waeth pa mor gywir y mae’r ymatebwyr wedi dehongli cynigion Cymwysterau Cymru neu a yw eu barn yn adlewyrchu’r cyd-destun cymwysterau cyfredol yn gywir.

Bwriedir i’r adroddiad hwn yw darparu crynhoad o’r ystod eang o themâu a nodwyd gan ymatebwyr, wedi’u cyflwyno fel amrywiaeth o negeseuon allweddol at ystyriaeth Cymwysterau Cymru. Fel y cyfryw, nid yw’r adroddiad yn cyflwyno’r niferoedd neu’r cyfrannau o ymatebwyr a gododd bob thema.

2. Themâu trosfwaol

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd cyfres o gwestiynau penodol i'r ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion a gyflwynodd Cymwysterau Cymru. Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wahanol bynciau, nododd y dadansoddiad themâu trosfwaol a mynych a godwyd gan ymatebwyr ar draws nifer o gwestiynau. Yn yr adran gychwynnol hon o'r adroddiad, cyflwynir trosolwg o'r themâu trosfwaol a godwyd yn aml gan yr ymatebwyr eu hunain drwy'r ymgynghoriad.

Soniodd ymatebwyr ei bod yn bwysig sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cymwysterau sy'n adlewyrchu ethos y cwricwlwm newydd a chymwysterau sy'n cefnogi dilyniant llyfn i addysg ôl-16.

- Ar un llaw, soniodd ymatebwyr y dylai cymwysterau sicrhau o hyd bod dysgwyr yn gallu pontio'n ddidrafferth i astudiaeth sy'n benodol i bwnc ar lefel ôl-16, heb wanedu gwybodaeth a sgiliau pwnc. Yn yr un modd, dylai dulliau asesu a fabwysiadir ar gyfer dysgwyr 16 oed fod yn ddigon cyson â'r dulliau asesu a ddefnyddir mewn addysg ôl-16.
- Ar y llaw arall, soniodd ymatebwyr y dylai cymwysterau gysylltu â chynnwys, strwythur a dulliau addysgu y cwricwlwm newydd (fel strwythur y meysydd dysgu a phrofiad a'r pedwar diben), gan gefnogi felly'r egwyddorion sy'n sail i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, dywedodd ymatebwyr y dylai cymwysterau sy'n cael eu sefyll yn 16 oed ategu'r symudiad at asesu drwy gamau dilyniant a'r ffordd o asesu yn ystod cyfnodau cynharach addysg (er na roddwyd enghreifftiau penodol ar y cyfan gan ymatebwyr).

Roeddent hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig i gymwysterau gynnal eu defnydd neu werth cyfredol ac y gellir eu cymharu yng Nghymru a thu hwnt. Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhaid i gymwysterau gadw'n ddigon cyson â chymwysterau blaenorol a chymwysterau y tu allan i Gymru i sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi gan gyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Ystyriwyd bod hyn yn benodol o bwysig i ddysgwyr sy'n dymuno astudio neu weithio y tu allan i Gymru.

Er bod rhai ymatebwyr yn pwysleisio ei bod yn bwysig diwygio cymwysterau er mwyn ategu a chefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, rhybuddiodd eraill fod y system addysg yn wynebu cyfnod o newid sylweddol.

- Ar un llaw, soniodd ymatebwyr fod **cymwysterau a'r cwricwlwm yn ymblethedig, a bod rhaid i'r diwygio ddigwydd ar yr un pryd** i sicrhau bod y system addysg yn datblygu mewn modd trefnus a chydlynol.
- Ar y llaw arall, pwysleisiwyd bod **gweithwyr addysg proffesiynol eisoes yn ymdrin â beichiau gwaith cynyddol.** Rhaid felly cefnogi unrhyw ddiwygiad cymwysterau â digon o hyfforddiant ac adnoddau i sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol mewn sefyllfa dda i ymateb. Credwyd hefyd bod rhaid i amseriad y diwygiad cymwysterau adlewyrchu'r heriau hyn; er bod rhaid i unrhyw welliannau bod yn eu lle ar adeg briodol i osgoi diffyg cydredeg â'r cwricwlwm newydd, mae angen digon o amser hefyd ar weithwyr addysg proffesiynol i ymgyfarwyddo ag unrhyw welliannau i gymwysterau.

Yn ôl ymatebwyr, **gallai cymwysterau gynnwys amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu nag a ddefnyddir ar hyn o bryd**, sy'n cyd-fynd yn well ag ethos y cwricwlwm newydd ac sy'n adlewyrchu galluoedd dysgwyr yn well. Cefnogodd ymatebwyr ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu di-arholiad, ochr yn ochr ag arholiadau. Er enghraifft, dywedodd ymatebwyr fod lle i ystyried defnyddio mwy o asesu digidol a gwaith cwrs sy'n seiliedig ar brosiect.

Roedd yr angen i gynnal dewis priodol o gymwysterau i ddysgwyr hefyd yn ystyriaeth allweddol i'r ymatebwyr. Roeddent yn teimlo y dylai ystod eang o gymwysterau fod ar gael sy'n cynnwys meysydd pwnc galwedigaethol ac academaidd, gan bwysleisio mor bwysig yw sicrhau bod yr amrywiaeth hon yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr ar draws pob safle. Er enghraifft, nododd ymatebwyr y dylai cymwysterau priodol fod ar gael i ddiwallu anghenion iaith a sgiliau neu ddiddordebau dysgwyr unigol, yn ogystal ag anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). I sicrhau y cyflawnir amrediad priodol felly, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr amrywiaeth o gymwysterau sydd ar gael yn cael ei rheoli'n briodol.

3. Egwyddorion i lunio'r cymwysterau a gynigir yn y dyfodol

Roedd 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' yn amlinellu cynigion Cymwysterau Cymru i sefydlu cyfres o egwyddorion i lywio'r ffordd y bydd yn penderfynu pa gymwysterau a safir yn 16 oed sy'n gymwys am gyllid cyhoeddus. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar y cynigion hyn.

3.1 Egwyddor 1: Cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru a'i gefnogi

Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus a gymerir yn 16 oed yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru a'i gefnogi.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

[3]



Atebodd 655 o ymatebwyr i gyd y cwestiwn hwn ac roedd 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Roedd 15% pellach yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol. Darparodd cyfanswm o 364 sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (249 gan y rheini a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf; 70 gan y rheini a oedd yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol; 30 gan y rheini a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf; a 15 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ymateb i'r cwestiwn caeedig).

3.1.1 Cefnogaeth i'r cynnig hwn

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, neu a oedd fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i'r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Nododd ymatebwyr y dylai cymwysterau a'r cwricwlwm gysylltu yn agos a'i gilydd i sicrhau system addysg gydlynol ac integredig. Nid oeddent yn credu bod fawr o werth i gymwysterau nad ydynt yn asesu'r wybodaeth a'r sgiliau gwirioneddol a fagwyd gan

[3] Nid yw'r canrannau a gyflwynwyd ar gyfer y cwestiwn caeedig hwn yn dod i gyfanswm union o 100% oherwydd talgrynnu canrannau i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

ddysgwyr. Nododd ymatebwyr mai asesu a phrofi cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r hyn a addysgwyd iddynt ddylai fod diben cymwysterau. Byddai'r system addysg yn ddatgymalog pe byddai cymwysterau'n asesu dysgwyr ar ddeunydd amherthnasol i'r cwricwlwm. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai cymwysterau fod yn berthnasol i'r hyn y mae dysgwyr wedi'i astudio. Roedd yn gyffredin i ymatebwyr deimlo y dylai'r egwyddor hon 'yn amlwg' fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus.

Gan sicrhau bod cymwysterau'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd ac yn ei gefnogi, roedd ymatebwyr yn teimlo bod cyfle i ystyried sut byddai cymwysterau'n paratoi dysgwyr i symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch ac i yrfaoedd y dyfodol. Roeddent yn teimlo bod rhaid i gymwysterau fod yn berthnasol i ofynion gyrfaoedd ac addysg ôl-16, a hynny'n benodol o ran cefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau am eu dyfodol a sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod cymwysterau'n bodloni gofynion ar gyfer gwahanol lwybrau gyrfa ac yn caniatáu pontio di-dor i addysg bellach ac addysg uwch. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod rhaid i gymwysterau a safir yn 16 oed gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i astudiaeth sy'n fwy penodol i bwnc ar lefel Safon Uwch ac addysg uwch.

> *'Dylai Cymwysterau Cymru sicrhau bod y cymwysterau newydd yn berthnasol i fyfyrwyr fel y gallai dysgwyr ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd yn y cymwysterau hynny yn eu "cam nesaf", boed hwnnw'n brifysgol, yn brentisiaeth, yn weithle neu'n ddewisiadau eraill.'* [Dysgwr]

Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig i gymwysterau adlewyrchu'r egwyddorion craidd sy'n sail i gynllun y cwricwlwm newydd, gan gynnwys:

- **pedwar diben y cwricwlwm;**
- **strwythur y meysydd dysgu a phrofiad;**
- **arferion addysgu;**
- **dulliau asesu newydd; a'r**
- **ffocws ar sgiliau a gwybodaeth gysyniadol yn y cwricwlwm newydd.**

Nododd ymatebwyr fod y cwricwlwm newydd yn cyflwyno strwythur newydd a dull newydd o addysgu a dysgu. Roeddent yn teimlo na fyddai cymwysterau traddodiadol o reidrwydd yn adlewyrchu ethos y cwricwlwm newydd ac y byddai angen eu diwygio i sicrhau eu bod yn cadarnhau ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffordd y bydd dysgwyr yn cael eu haddysgu. Er enghraifft, nododd ymatebwyr fod rhaid i gymwysterau adlewyrchu camau dilyniant a'r dysgu a datblygiad cyfannol a nodir ym mhedwar diben y cwricwlwm.

> *'Syniad y cwricwlwm newydd yw galluogi disgyblion i fod yn rhai sy'n datrys problemau'n fwy rhesymegol ac annibynnol. Mae'r system TGAU gyfredol yn fwy seiliedig ar gofio a dysgu ffeithiau a chynnwys.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ceir cred ymhlith ymatebwyr y byddai cysylltu cymwysterau'n uniongyrchol i'r cwricwlwm newydd yn ddefnyddiol ac yn glir i ddysgwyr. Dywedodd ymatebwyr y byddai llai o ddryswch i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr a chyflogwyr pe byddai'r cymwysterau'n dilyn yn

uniongyrchol ymlaen o gynnwys y cwricwlwm. Teimlai'r ymatebwyr y byddai dysgwyr yn benodol yn deall sut mae'r cymwysterau a gymerant yn berthnasol i'r hyn y buont yn ei ddysgu. Roeddent yn teimlo y byddai cysylltu cymwysterau â'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o gefnogaeth ac yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau da.

Ystyriwyd bod cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd ac sy'n ei gefnogi yn allweddol er mwyn llwyr gyflawni nodau'r cwricwlwm newydd. Roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai cymwysterau amherthnasol yn effeithio'n negyddol ar ymgysylltiad y proffesiwn addysg â'r cwricwlwm newydd. Roeddent yn cydnabod bod cryn waith wedi'i wneud i ddiwygio'r cwricwlwm ac, os nad yw cymwysterau'n cael eu halinio, fod risg y byddai gweithwyr addysg proffesiynol yn parhau i ganolbwyntio ar baratoi dysgwyr at gymwysterau yn ôl dulliau cyfarwydd yn hytrach na chroesawu'r dull a anogir gan y cwricwlwm newydd, gan danseilio felly ysbryd y cwricwlwm newydd a'r gwaith a wnaed eisoes yn hyn o beth. Dywedodd ymatebwyr y dylid ystyried cymwysterau yn un elfen allweddol yn y newidiadau ehangach y mae angen iddynt ddigwydd ar yr un pryd yn y system addysg yng Nghymru.

> *'Gwyddom o brofiad fod addysgu yng Nghyfnod Allweddol 4 yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ofynion manylebau cyrff dyfarnu na rhaglenni astudio cyhoeddedig y Cwricwlwm Cenedlaethol. Os oes unrhyw ddatgysylltiad rhwng nodau'r cwricwlwm newydd a'r cymwysterau a safir yn 16 oed, mae'n annhebygol y bydd nodau'r cwricwlwm newydd yn cael eu llwyr sylweddoli.'* [Corff dyfarnu]

Soniodd ymatebwyr y dylai cymwysterau gysylltu â'r cwricwlwm newydd a'i gefnogi i sicrhau dulliau addysgu a dysgu parhaus ar draws Cyfnodau Allweddol, a hynny'n benodol yn ystod y pontio rhwng Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Nododd ymatebwyr risg na fyddai ethos y cwricwlwm newydd yn llifo i Gyfnod Allweddol 4 os na chaiff cymwysterau eu diwygio i adlewyrchu'r ethos hwn. Dylai dulliau addysgu a dysgu bontio'n llyfn ar draws pob Cyfnod Allweddol, gan atgyfnerthu sgiliau y mae dysgwyr yn eu datblygu drwy gydol eu haddysg.

> *'Mae'n bwysig nad yw'r llwybr hwn yn dod i ben yn 14 oed, pan mae cymwysterau allanol ffurfiol i ddysgwyr yn dechrau ar hyn o bryd ar gyfer asesiad yn 16 oed. Mae'n bwysig bod y cymwysterau hyn yn rhan o'r continwwm dysgu a'u bod yn galluogi dysgwyr i feithrin ymhellach ac arddangos eu dysgu a'u sgiliau blaenorol, a'u gwybodaeth flaenorol os yw'n briodol.'* [Consortiwm addysg rhanbarthol]

Mynegodd ymatebwyr hefyd gytundeb cyffredinol â'r cynnig heb ymhelaethu llawer ymhellach.

3.1.2 Ystyriaethau ynghylch y cynnig hwn

Er bod ymatebwyr wedi mynegi o leiaf rhyw lefel o gytundeb â'r cynnig, manteisiodd rhai hefyd ar y cyfle i ddisgrifio'r pethau y dylid eu hystyried, yn eu barn hwy, wrth roi'r cynnig ar waith.

Ystyriwyd bod anhawster yn cyflawni'r berthynas uchod rhwng cymwysterau a nodau'r cwricwlwm; **teimlai'r ymatebwyr fod y system atebolrwydd addysg ar hyn o bryd yn rhoi gormod o bwyslais ar gyflawni cymwysterau yn 16 oed.** Yn sgil y dull asesu 'llawer yn y fantol' hwn, cred ymatebwyr fod cymwysterau a safir yn 16 oed yn sbarduno cynnwys, arferion addysgu ac asesu'r cwricwlwm, gan gyfyngu ar yr hyblygrwydd cwricwlwm sydd ar gael i weithwyr addysg proffesiynol. Pwysleisiodd ymatebwyr fod rhaid i'r system addysg roi pwys cymesur ar y cymwysterau hyn, i sicrhau bod cymwysterau'n ychwanegu at gynnwys ac ethos y cwricwlwm newydd, yn hytrach na'u trechu.

> *'Un o'r prif broblemau gyda'r cwricwlwm cyfredol yw bod y cymwysterau a safir yn 16 oed yn sbarduno ac yn pennu'r cwricwlwm sy'n cael ei addysgu 'y gynffon sy'n siglo'r ci''.* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Nododd ymatebwyr faterion **adnoddu, hyfforddi a gweithredu ymarferol y dylid mynd i'r afael â hwy** yn rhan o ddiwygio cymwysterau. Yn eu plith roedd sicrhau bod darparwyr addysg bellach ac addysg uwch yn gallu ymateb i gymwysterau newydd neu ddiwygiedig a mynd i'r afael â sut y byddai cymwysterau TGAU yn cael eu hailsefyll. Un enghraifft o'r fath oedd sut byddai darparwyr yn gallu cefnogi dysgwyr yn ailsefyll y cymwysterau ôl-16, oherwydd mae'n bosibl y byddant yn dechrau o'r dechrau os ydynt yn ailsefyll cymwysterau TGAU sydd wedi newid yn sylweddol ers iddynt roi eu cynnig cyntaf arnynt. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod angen manylu ymhellach ar olwg ymarferol y newidiadau i gymwysterau, gan gynnwys y broses o brofi sut byddai cymwysterau yn bodloni egwyddorion arfaethedig Cymwysterau Cymru ar gyfer llywio cynnig y dyfodol.

Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod cyfres eang a chytbwys o gymwysterau ar gael, a'r ymatebwyr yn pwysleisio y dylai ystod y cymwysterau academaidd, technegol a galwedigaethol fod yn addas i'r diben. Pwysleisiodd ymatebwyr y pwynt hwn o ran y dewis o gymwysterau a ddylai fod ar gael a'r amrywiaeth o lwybrau gyrfa y dylai cymwysterau eu cefnogi. Yn ôl ymatebwyr, ni ddylai cymwysterau gael eu diwygio ar draul cynnig eang sy'n diwallu eu hanghenion dilyniant. Pwysleisiwyd hefyd y gallai hyd yn oed cymwysterau â nifer fechan yn manteisio arnynt fod yn werthfawr iawn i'r dysgwyr sy'n eu cymryd. Nododd ymatebwyr amrywiaeth o fathau o gymhwyster na chaiff unrhyw broses ddiwygio, yn eu barn hwy, effeithio'n negyddol arnynt, er enghraifft, cymwysterau galwedigaethol (gydag enghreifftiau fel cymwysterau addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol (AHGC), Dyfarniadau lefel 1/2 a BTEC a gynigir) a allai fod yn benodol o werthfawr i rai gyrfaoedd.

Nododd ymatebwyr hefyd **themâu addysgol allweddol y mae'n rhaid rhoi digon o bwys** iddynt yng nghynnig cymwysterau'r dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys **pynciau lle nad oes cymwysterau priodol yn bodoli ar hyn o bryd** (fel iechyd a lles) a **chymwysterau y credir eu bod yn werthfawr ond nad ydynt yn gwbl gysylltiedig â chynnwys y cwricwlwm yn unig** (gan gynnwys dewisiadau yn lle cymwysterau ffurfiol fel Gwobr Dug Caeredin). Holodd ymatebwyr hyn sut y gellid datblygu cymwysterau i sicrhau'r ystod orau posib o gyfleoedd i ddysgwyr.

'Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol i'r holl blant a phobl ifanc … os nad yw'r meysydd hyn yn rhan o gymwysterau pobl ifanc, mae perygl y gallent fod heb y statws yn yr ysgol y mae gofyn mor daer amdano.' [Comisiynydd]

Soniodd ymatebwyr hefyd fod rhaid i unrhyw ddiwygio cymwysterau sicrhau bod cymwysterau'n hygyrch i amrywiaeth eang o ddysgwyr o wahanol gefndiroedd a chanddynt wahanol ofynion dysgu. Rhaid i ddiwygiadau i gymwysterau fod yn gynhwysol, gan sicrhau bod cymwysterau'n bodloni anghenion pobl ifanc fyddar, pobl ifanc anabl, y rheini ag ADY, ac eraill sydd efallai'n wynebu rhwystrau rhag cael at gymwysterau. Mae'r thema hon yn perthyn yn agos i'r angen am gyfres eang a chytbwys o gymwysterau, gydag ymatebwyr yn pwysleisio y gallai cyfyngu ar y dewis o gymwysterau sydd ar gael achosi anfantais bosibl i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau rhag cael at gymwysterau.

3.1.3 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

Ymhlith y lleiafrif a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu a fynegodd fel arall ryw lefel o bryder ynglŷn â'r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Pwysleisiodd ymatebwyr fod rhaid i gymwysterau a safir gan ddysgwyr yng Nghymru fod yn gyffelyb i'r rheini y tu allan i Gymru, cael eu cydnabod yn gyfartal gan sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a bod yn gyfredol ar gyfer cyflogaeth y dyfodol. Pwysleisiwyd na chaiff dysgwyr yng Nghymru fod o dan anfantais o'u cymharu â'r rheini o fannau eraill yn y DU wrth geisio cael lle addysg bellach neu addysg uwch, yn enwedig y tu allan i Gymru. Pryderai'r ymatebwyr hefyd na fydd cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd efallai'n cael eu deall neu werthfawrogi o reidrwydd gan gyflogwyr yng Nghymru a'r tu hwnt. Pwysleisiwyd hefyd bod angen osgoi cynllunio cymwysterau pwrpasol i adlewyrchu'r cwricwlwm yng Nghymru pe byddai hyn yn arwain at anghydraddoldeb â'r rheini a safir gan ddysgwyr y tu allan i Gymru.

'Ni ddylem gael sefyllfa lle gwerthfawrogir ein cymwysterau yng Nghymru yn unig, heb eu bod fel pasbort i'r cyfleoedd y tu allan i'r rhanbarth.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Dylid cynnal elfennau craidd o'r strwythur cymwysterau cyfredol, ym marn ymatebwyr, fel y sgiliau craidd a'r wybodaeth benodol i bwnc sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch. Teimlai'r ymatebwyr fod terfyn clir i'r graddau y gall cymwysterau adlewyrchu strwythur y cwricwlwm newydd. Mynegodd ymatebwyr bryder penodol am bosibilrwydd gwanedu sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i bwnc o dan y cwricwlwm newydd; dylai cymwysterau yn 16 oed arddangos digon o wybodaeth bwnc i sicrhau y gall dysgwyr bontio'n ddiffwdan i astudio pynciau penodol ar lefel ôl-16 a gyrfaoedd penodol. Fel y cyfryw, pwysleisiodd ymatebwyr na ddyla strwythur meysydd dysgu a phrofiad gael ei ddyblygu ar gyfer cymwysterau a safir yn 16 oed.

Ar adegau, roedd ymatebwyr yn feirniadol o ymagwedd y cwricwlwm newydd ei hun a

gallu'r sector i greu cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm hwn. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am yr effaith negyddol y gallai diwygio'r cwricwlwm ei chael ar y system addysg, y potensial am amrywio sylweddol yn y ffordd y caiff y cwricwlwm ei ddehongli a'i weithredu gan ganolfannau ledled Cymru, ac 'aneglurder' canfyddedig y cwricwlwm hyd yma. Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd am allu'r sector i addasu cymwysterau i gwricwlwm newydd sy'n cael ei ystyried yn ansicr o hyd ac yn agored i lawer o ddehongliadau. **Fel y cyfryw, mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch gallu'r sector addysg i addasu i ddiwygiadau graddfa fawr niferus ac 'amhendant' sy'n digwydd ar yr un pryd.** Nid oedd ymatebwyr yn teimlo y gellid diwygio cymwysterau'n addas eto i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a bod baich gwaith sylweddol ynghlwm wrth sicrhau bod pob newid i'r system addysg yng Nghymru yn cael ei weithredu'n gyson.

'Dywedwyd wrthym NAD cwricwlwm cenedlaethol mo'r cwricwlwm newydd, ond yn hytrach cyfres o ganllawiau i wahanol ardaloedd/awdurdodau/ysgolion eu defnyddio wrth gynllunio eu cwricwlwm … sut gallwch chi/CBAC lunio arholiad neu unrhyw fath o brawf a fydd yn ymdrin â phob fersiwn leol/ranbarthol o'r cwricwlwm newydd pan fo'r hyn a ddysga disgyblion yn yr ysgol yn dibynnu ar eu cod post?' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

3.1.4 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd ac ehangach yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio bod angen cyfres eang a chytbwys o gymwysterau, yn ogystal â phwysleisio bod angen osgoi cymwysterau sy'n sbarduno cynnwys cwricwlwm ac arferion addysgu.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd hefyd yn fwy tebygol o drafod materion ymarferol mewn perthynas â gweithredu newidiadau i gymwysterau.
- Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o nodi y byddai cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm yn ddefnyddiol ac yn glir iddynt, a bod rhaid i gymwysterau gysylltu'n uniongyrchol â chynnwys y cwricwlwm i fod yn werth chweil.
- Roedd pob grŵp o ymatebwyr, ar wahân i ddysgwyr, yn pwysleisio'n aml fod rhaid i gymwysterau fod yn gymaradwy a chael eu cydnabod y tu allan i Gymru.
- Roedd pob grŵp o ymatebwyr, ar wahân i randdeiliaid addysg ehangach, yn tynnu sylw'n aml i'r angen i gymwysterau hwyluso dilyniant i addysg ôl-16 a chyflogaeth.

3.2 Egwyddor 2: Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog

Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



Atebodd 633 o ymatebwyr i gyd y cwestiwn hwn ac roedd 80% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Roedd 11% pellach yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol. Darparodd cyfanswm o 341 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig hefyd i gefnogi eu hateb (257 gan y rheini a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf; 40 gan y rheini a oedd yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol; 34 gan y rheini a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf; a 10 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ymateb i'r cwestiwn caeedig).

3.2.1 Cefnogaeth i'r cynnig hwn

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, neu a oedd fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i'r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai dysgwyr gael y cyfle i ddewis ym mha iaith y maent yn ymgymryd â'u cymwysterau. Dywedasant y byddai cymwysterau dwyieithog yn galluogi dysgwyr i ddewis eu hiaith. Yn benodol, soniodd ymatebwyr y dylai dysgwyr allu ymgymryd â chymwysterau yn yr iaith y buont yn astudio ynddi hyd yma a/neu'r iaith yr ystyriant ei bod yn iaith gyntaf neu'n iaith a ffafrir iddynt ar gyfer sefyll asesiadau. Ystyrir ei bod yn hanfodol cael y dewis hwn er mwyn darparu ar gyfer anghenion dysgu dysgwyr Cymraeg eu hiaith.

> *'Credaf fod hyn yn dibynnu ar ddewis iaith gyntaf y myfyrwyr ond dylai fod yn ddewis clir am fy mod yn addysgu myfyrwyr sydd naill ai â'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf gartref.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

[4] Nid yw'r canrannau a gyflwynir ar gyfer y cwestiwn caeedig hwn yn dod i gyfanswm union o 100% oherwydd talgrynnu canrannau i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Heblaw bod cymwysterau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, teimlai'r ymatebwyr y gallai dysgwyr Cymraeg eu hiaith fod o dan anfantais. Crybwyllodd ymatebwyr ddau brif reswm dros eu cred y byddai diffyg cymwysterau dwyieithog yn rhoi dysgwyr dan anfantais. Yn gyntaf, efallai na fydd dysgwyr yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl os byddant yn ymgymryd â chymwysterau mewn iaith heblaw'r iaith y maent wedi astudio ynddi neu y maent yn fwyaf cyffyrddus â hi. Mae hyn am eu bod efallai'n llai cyfarwydd â therminoleg Saesneg berthnasol, am nad ydynt wedi cael eu haddysgu yn Saesneg yn y maes pwnc penodol, neu am eu bod yn fwy rhugl yn y Gymraeg nag yn Saesneg. Yn ail, oni bai bod pob cymhwyster a safir yn 16 oed ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddai gan ddysgwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg lai o amrywiaeth o gymwysterau i ddewis o'u plith, o'i chymharu â'r amrywiaeth ar gael i'r rheini sy'n ymgymryd â'u cymwysterau yn Saesneg. Soniodd ymatebwyr y gallai hyn gyfyngu ar gyfleoedd dilyniant y rheini sydd am ymgymryd â'u cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai na fydd modd bodloni'r gofyniad o gael cyfres eang a chytbwys o gymwysterau i ddiwallu anghenion pob dysgwr os na ellir gwneud cymwysterau ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

'Dylai myfyrwyr gael y cyfle i gymryd cymhwyster yn yr iaith y cawsant addysg pwnc ynddi. Mae defnyddio geirfa dechnegol yn gywir a'r gallu i ddefnyddio iaith fanwl gywir i ddisgrifio cysyniadau a phrosesau yn hanfodol i arddangos dealltwriaeth dda.' [Corff cynrychiadol]

'Mae pobl sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf o dan anfantais yn awtomatig os oes rhaid iddynt sefyll yr arholiad yn Saesneg.' [Dysgwr]

Roedd ymatebwyr o'r farn bod gan ddysgwyr yr hawl i gymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn un o egwyddorion craidd cydraddoldeb a chynwysoldeb. Soniodd ymatebwyr y dylai fod cyfle cyfartal i ddysgwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â statws cyfreithiol y Gymraeg a hawliau dysgwyr i gydraddoldeb mewn addysg. Dywedasant mai cenedl ddwyieithog yw Cymru a'u bod yn teimlo y dylai'r system addysg adlewyrchu hyn. Pwysleisiwyd ganddynt fod y Gymraeg yn rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac y dylai cymwysterau cyfrwng Cymraeg fod ar gael felly i bob dysgwr. Ystyriwyd bod hyn yn fodd o sicrhau y byddai canolfannau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfiawn ac y byddai dysgwyr yn gallu symud ymlaen drwy eu haddysg yn eu dewis iaith. Yn yr un modd, ystyriwyd bod cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn adlewyrchu hawliau dysgwyr fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r gofynion Cymraeg a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

'Gwyddom fod rhai cymwysterau priodol a gwerth chweil iawn nad ydynt ar gael yn Gymraeg; os na fydd person ifanc yn gallu cael at y rhain am nad ydynt am gael eu hariannu, mae yma wrthdaro rhwng uchelgais y cwricwlwm newydd i hyrwyddo tegwch, cyfle cyfartal a chynwysoldeb.' [Sefydliad trydydd sector]

Roedd ymatebwyr yn credu y byddai cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cydredeg â strategaethau a pholisïau cenedlaethol allweddol ac yn eu cefnogi. Yn

benodol, dywedodd ymatebwyr mai mabwysiadu'r egwyddor hon fyddai'r unig ffordd o sicrhau bod cymwysterau'n adlewyrchu ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.[5] Nododd ymatebwyr fod cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ffactor allweddol i lwyddiant nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Soniasant hefyd y byddai cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cefnogi ac yn hybu proffil y Gymraeg yn fwy cyffredinol. Dywedodd ymatebwyr y byddai darparu cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn debygol o gefnogi defnydd cymdeithasol ehangach o'r Gymraeg, gan ddiogelu a chryfhau safle diwylliannol yr iaith. Ystyriwyd hefyd fod yr egwyddor hon yn fodd o bwysleisio mor werthfawr yw'r Gymraeg i Gymru.

Yn ogystal, teimlai'r ymatebwyr y byddai cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gwella cyfleoedd gyrfa a sgiliau Cymraeg. Dywedodd ymatebwyr fod cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg ac y byddai cymwysterau yn Gymraeg yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr wella eu sgiliau Cymraeg presennol.

Roedd ymatebwyr hefyd yn cytuno'n gyffredinol â'r cynnig heb lawer o ymhelaethu pellach.

3.2.2 Ystyriaethau ynghylch y cynnig hwn

Er bod ymatebwyr yn cytuno o leiaf i raddau â'r cynnig, manteisiodd rhai ar y cyfle hefyd i ddisgrifio agweddau y dylid eu hystyried, yn eu barn hwy, wrth roi'r cynnig ar waith.

Nodwyd materion ymarferol at ystyriaeth Cymwysterau Cymru pe byddai gofyn i gyrff dyfarnu wneud pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ac a safir yn 16 oed ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn benodol yr eithriadau i'r egwyddor hon. Nododd ymatebwyr y byddai angen ystyried adnoddu, yn ogystal â'r agweddau ymarferol ar sicrhau bod cymwysterau Cymraeg a Saesneg ar gael mewn pryd. Mynegodd ymatebwyr hefyd farn gymysg o ran sut byddai modd mynd i'r afael â'r eithriadau i'r egwyddor hon; dywedodd rhai ymatebwyr y byddai angen ymagwedd gymesur a realistig lle nad oes cymwysterau ar gael neu lle nad ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac eraill yn pwysleisio na ddylai fod unrhyw eithriadau ac y dylai cymwysterau Cymraeg a Saesneg fod yn orfodol.

Credwyd y byddai cynnal ystod addas o gymwysterau yn hanfodol os mynnir bod cyrff dyfarnu'n cynnig pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ac a gymerir yn 16 oed yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Pwysleisiodd ymatebwyr na ddylai gweithredu'r egwyddor hon arwain at ddewis prinnach o gymwysterau i ddysgwyr. Roeddent yn cytuno â'r egwyddor ond dywedwyd nad ydynt o reidrwydd yn dymuno gweld cymwysterau'n cael eu hepgor o'r cynnig os nad oes modd iddynt fod ar gael yn Gymraeg. Fel y cyfryw, nid oedd ymatebwyr am weld egwyddor felly'n gosod rhai dysgwyr o dan anfantais yn anfwriadol lle bo'n heriol rhoi'r egwyddor ar waith.

Yn gysylltiedig â'r uchod, nododd ymatebwyr heriau yn ymwneud â mynnu bod cyrff

[5] Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

dyfarnu y tu allan i Gymru yn cynnig cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Crybwyllodd ymatebwyr risg, sef y byddai cyrff dyfarnu y tu allan i Gymru yn ei chael yn heriol darparu pob cymhwyster yn Gymraeg ac yn Saesneg (yn enwedig oherwydd argaeledd adnoddau). Mynegwyd pryder y byddai hyn yn arwain at gyrff dyfarnu y tu allan i Gymru yn lleihau neu'n gwaredu'r cymwysterau a gynigiant yng Nghymru, gan gyfyngu ar y dewis sydd ar gael i ddysgwyr. Fel y cyfryw, roedd ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig cefnogi a chymell y cyrff dyfarnu hyn mewn modd addas i gydredeg â'r egwyddor hon (er enghraifft, drwy ddarparu grantiau i gefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg).

> *'[Mae ein sefydliad] yn cefnogi'n gryf egwyddor gyffredinol darpariaeth gyfartal o ran cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig na ddylid cyfyngu ar y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru oherwydd gofyniad i wneud darpariaeth yn y ddwy iaith. Mae'r ystyriaeth hon yn enwedig o bwysig o ran cymwysterau galwedigaethol, lle mae'r ddarpariaeth yn Gymraeg yn llawer prinnach ar hyn o bryd, ac o ran cymwysterau a gymerir gan nifer fechan o ddysgwyr yn unig.'* [Sefydliad trydydd sector]

Nododd ymatebwyr na fyddai'n ddigonol i gymwysterau eu hunain fod yn Gymraeg ac yn Saesneg; byddai angen hefyd i ddeunyddiau ategol ehangach fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai gwerslyfrau, canllawiau adolygu, ac adnoddau addysgu a dysgu eraill fod ar gael yn ddwyieithog, a'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu gwneud ar gael ar yr un pryd.

3.2.3 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

Ymhlith y lleiafrif a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o bryder ynghylch y cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Pryderai'r ymatebwyr fod mynnu bod cyrff dyfarnu'n gwneud pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ac a safir yn 16 oed ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn debygol o roi dysgwyr dan anfantais drwy gyfyngu ar eu dewisiadau. Mae'r thema hon yn adlewyrchu sylwadau cynharach ynghylch yr angen i gynnal amrywiaeth addas o gymwysterau, ond mynegodd yr ymatebwyr hyn bryderon dyfnach. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn na fyddai cyrff dyfarnu'n gallu darparu pob cymhwyster yn Gymraeg ac yn Saesneg (yn enwedig mewn meysydd pwnc arbenigol) ac, o ganlyniad, byddai'r amrywiaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn bendant yn llai. Roeddent yn teimlo mai'r ffordd i sicrhau ystod addas o gymwysterau i ddiwallu anghenion pob dysgwr yw caniatáu i ddysgwyr barhau i gymryd cymwysterau, hyd yn oed os nad ydynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

> *'Mae yna gymwysterau bendigedig yn cael eu cynnig gan fyrddau arholi Lloegr sy'n 'llenwi'r bwlch' ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Mae'r rhain yn diwallu anghenion dysgwyr nad ydynt yn addas ar gyfer astudiaeth TGAU academaidd. Byddai'n niweidiol dros ben i'r dysgwyr hyn petai ein canolfan yn methu cynnig darpariaeth alwedigaethol … oherwydd nad oes unrhyw gymwysterau cymharol yn cael eu cynnig gan fyrddau arholi dwyieithog.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Cafwyd pryder hefyd ymhlith ymatebwyr fod mynnu bod cyrff dyfarnu'n gwneud pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn debygol o fod yn waharddol o ddrud. Pryderai'r ymatebwyr y byddai cost ychwanegol cynhyrchu adnoddau dwyieithog, yn ogystal â chyfieithu deunyddiau asesu ac ymatebion ymgeiswyr, yn uchel. Yn benodol, teimlai'r ymatebwyr na fyddai gwaith felly yn ariannol ddichonadwy na chynaliadwy lle mae nifer isel yn cymryd rhai cymwysterau. Ar adegau, teimlai'r ymatebwyr y byddai'r niferoedd yn wir yn isel, gan eu bod yn teimlo bod **galw annigonol am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dim digon o siaradwyr Cymraeg, gan ei gwneud yn anodd cyfiawnhau'r gofyniad hwn.**

Yn yr un modd, credwyd ymhlith ymatebwyr bod arbenigedd iaith Gymraeg annigonol ar gael i ddarparu cymwysterau o ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg. Soniodd ymatebwyr nad yw'r arbenigedd gofynnol i asesu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar hyn o bryd o reidrwydd mewn cyrff dyfarnu y tu allan i Gymru, nac ychwaith yr wybodaeth arbenigol sydd ei hangen i greu adnoddau penodol i bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd ymatebwyr hefyd y gallai'r egwyddor hon arwain at gyfieithu ymatebion ymgeiswyr neu dystiolaeth yn rheolaidd, a hwnnw'n cael ei ystyried yn wasanaeth llai nag optimaidd i ddysgwyr ac yn un a allai gyflwyno risg i'r broses asesu.

> *'[Ymhlith yr heriau wrth ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg mae] prinder arholwyr sy'n arbenigo mewn pwnc ac sy'n siarad Cymraeg. Gwrthwynebiad a chwynion gan ddysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid eraill lle mae'n rhaid cyfieithu gwaith ymgeiswyr o'r Gymraeg i Saesneg i'w farcio neu i adolygu marcio ar ôl canlyniadau. Y risg cynyddol i gyflenwi canlyniadau cywir mewn pryd pan fydd rhaid dibynnu ar gyfieithwyr a/neu arholwyr dwyieithog unigol.'* [Corff dyfarnu]

Soniodd ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo nad yw cymwysterau cyfrwng Cymraeg o reidrwydd yn briodol i bob maes pwnc. Teimlai ymatebwyr na ddylai pob pwnc gael ei arholi drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd na fyddai o reidrwydd er budd y dysgwr, nac yn berthnasol i'r pwnc. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn na fyddai efallai'n briodol asesu pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn Gymraeg am eu bod yn credu ei bod hefyd yn bwysig cael gwybodaeth am derminoleg Saesneg yn y meysydd pwnc hyn.

3.2.4 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o godi ychydig o'r themâu a drafodwyd uchod, sef: y byddai cymwysterau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cydredeg â strategaethau a pholisïau cenedlaethol allweddol ac yn eu cefnogi; y byddai cynnal ystod addas o gymwysterau yn hanfodol; y dylai dysgwyr gael y cyfle i ddewis ym mha iaith y maent yn ymgymryd â'u cymwysterau; y byddai heriau i gyrff dyfarnu y tu allan i Gymru wneud cymwysterau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; y gallai dysgwyr fod dan anfantais heblaw bod cymwysterau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; a bod rhaid i'r pecyn cymwysterau ehangach fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Roedd rhanddeiliaid addysg ehangach a chraidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o godi materion ymarferol y dylid eu hystyried.
- Codwyd y gofyniad am gyfle cyfartal gan bob grŵp o ymatebwyr, er bod rhanddeiliaid addysg craidd ychydig yn fwy tebygol o godi'r thema hon.
- Roedd dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol ychydig yn fwy tebygol o nodi mai cenedl ddwyieithog yw Cymru.

3.3 Egwyddor 3: Cymwysterau sy'n rhan o gynnig teg a chydlynol

Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnigi bobl 16 oed i sicrhau ei bod yn deg a chydlynol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?



[6]

[6] Nid yw'r canrannau a gyflwynir ar gyfer y cwestiwn caeedig hwn yn dod i gyfanswm union o 100% oherwydd talgrynnu canrannau i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Atebodd cyfanswm o 620 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 80% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Roedd 10% pellach yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol. Darparodd cyfanswm o 308 sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (225 gan y rheini a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf; 40 gan y rheini a oedd yn cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol; 29 gan y rheini a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf; a 14 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ymateb i'r cwestiwn caeedig).

3.3.1 Cefnogaeth i'r cynnig hwn

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i'r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau tegwch drwy gynnal dewis priodol o gymwysterau sy'n addas i anghenion amrywiol dysgwyr. Soniodd ymatebwyr fod angen cysondeb ac eglurder, a bod angen sicrhau tegwch i bob dysgwr, ni waeth beth fo'i anghenion, ei alluoedd a'i uchelgeisiau. Roedd hyn yn nodweddiadol yn cynnwys tegwch i grwpiau penodol o ddysgwyr (e.e. grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag ADY) a'r rheini mewn safleoedd allan o'r brif ffrwd, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig. Soniodd ymatebwyr yn benodol fod angen i gymwysterau ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr llai galluog a chodwyd pryderon am risgiau canfyddedig culhau'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr. Codwyd y thema hon yn aml ochr yn ochr â sylwadau yn cefnogi cynnal neu ehangu cymwysterau galwedigaethol (trafodir y thema hon ar wahân isod).

> *'Rwy'n credu bod angen i gymwysterau a'r system addysg yn gyffredinol gael eu teilwra'n fwy i anghenion unigol y dysgwr a'i nodau.'* [Dysgwr]

> *'Os nad yw cymwysterau'n cynnig rhywbeth i bawb, mae'n bosibl na fyddant am barhau eu haddysg.'* [Dysgwr]

Pwysleisiodd ymatebwyr **bwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau yn 16 oed yn galluogi pontio esmwyth o Gyfnod Allweddol 3 a symud ymlaen i ddysgu ôl-16.** Soniodd ymatebwyr mai un o ddibenion cymwysterau oedd galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu datblygiad. Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i ddysgwyr gael eu paratoi'n ddigon da ar gyfer cymwysterau ôl-16, ac i gymwysterau yn 16 oed gydredeg â'r rhain. Soniodd ymatebwyr hefyd am sicrhau bod dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn barod i gymryd cymwysterau yn 16.

> *'Dylai cymwysterau fod yn sbardun i'ch camau nesaf a dylai'r wybodaeth sydd gennych o gymwysterau blaenorol eich helpu yn eich cymhwyster cyfredol. Dylai cymwysterau ddangos eich sgiliau a'ch unigoliaeth, nid eich gallu i neidio drwy gylchoedd.'* [Dysgwr]

Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd cynnal 'defnydd cyfredol' cymwysterau er mwyn i gymwysterau gael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu ôl-16. Cododd ymatebwyr hyn yn aml ochr yn ochr â phwysigrwydd cludadwyedd (h.y. sicrhau bod cymwysterau'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi y tu allan i Gymru). Pryderwyd y

gallai unrhyw ddargyfeirio sylweddol oherwydd diwygio cymwysterau olygu efallai fod dysgwyr o Gymru sy'n symud i rywle arall o dan anfantais.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y gyfres o gymwysterau yn destun sicrhau ansawdd, rheoli neu oruchwylio gan sefydliad canolog. Tueddai'r rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros hyn ganolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod safonau cyson o uchel yn cael eu cynnal, gyda goruchwyliaeth barhaus sefydliad canolog yn rhoi tawelwch meddwl i ddysgwyr, darparwyr a chyflogwyr. Roedd ymatebwyr yn cefnogi egwyddor osgoi dyblygu ac, ar adegau, o'r farn bod gormod o gymwysterau ar hyn o bryd nad oes llawer, os o gwbl, yn eu gwneud.

'Ar hyn o bryd mae sawl cwrs yn bodoli lle mae'r cynnwys yn gorgyffwrdd. Er mwyn i ysgolion a cholegau wneud penderfyniadau doeth o ran y cwricwlwm maent yn ei gynnig, mae angen symleiddio'r cynnig gan Cymwysterau Cymru.' [Awdurdod lleol]

'Mae'n bwysig cael dull cyson ledled Cymru. Byddai fel petai'n briodol bod corff cyffredinol yn goruchwylio darpariaeth y cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, mewn cydweithrediad â'r byrddau arholi perthnasol.' [Corff cynrychiadol]

Ystyriwyd bod gofyn ystyried dulliau asesu yn ofalus ochr yn ochr â chynnwys cymwysterau. Nododd ymatebwyr fod angen amrywiaeth o ddulliau asesu ochr yn ochr ag arholiadau. Codwyd hyn yn nodweddiadol ochr yn ochr â sylwadau am yr angen i ddarparu ar gyfer anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai llai galluog a'r rhai ag ADY.

'Mae angen cyfle ar bobl ifanc i ddangos eu sgiliau, a dylid defnyddio amrywiaeth helaeth o ddulliau asesu er mwyn gwneud hyn.' [Undeb athrawon]

'Mae pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, mae angen cael mwy o amrywiaeth asesu. Efallai na fydd y rheini nad ydynt yn ymdopi'n dda mewn arholiadau yn ffwdanu rhoi cynnig arni hyd yn oed, am eu bod yn gwybod na fyddant yn gwneud yn dda iawn. Nid yw arholiadau'n helpu i fagu sgiliau eraill cymaint â gwaith cwrs, sy'n helpu mwy gyda sgiliau trefnu, annibyniaeth a rheoli amser.' [Dysgwr]

Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen ystyried natur mesurau atebolrwydd canolfannau ochr yn ochr â dyfodol cymwysterau. Ystyriai'r ymatebwyr fod gofyn goruchwylio cymwysterau'n ofalus i sicrhau bod amrywiaeth eang o gymwysterau ar gael, a hefyd sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal. Ar adegau, codwyd pryderon gan ymatebwyr fod risg y gallai canolfannau gael eu cymell i ddewis cymwysterau sy'n cael eu hystyried yn rhai 'haws'. Soniodd gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid addysg ehangach am y mater hwn, gan nodi y gallai mesurau atebolrwydd fel mesur Capio 9 ddylanwadu ar ymddygiad a dewisiadau canolfannau mewn perthynas â chymwysterau, gan

greu cymhellion anfwriadol i ddewis cymwysterau penodol.[7]

> *'Mae angen cyfaddawd yma rhwng cael amrywiaeth a math priodol o gymhwyster ar gael i ddysgwyr Cymraeg ac osgoi sefyllfa lle mae ysgolion yn edrych am fersiwn 'hawsaf' cymhwyster i geisio hybu eu canlyniadau.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

> *'Er dylai ysgolion a dysgwyr allu dewis o blith amrywiaeth o gymwysterau sy'n addas i anghenion dysgu, mae angen cywirdeb yn y system. Dylai pob cymhwyster gadw at y safonau uchaf ac ni ddylai fod cyrsiau dyblyg sy'n cynnig llwybr llai manwl gan ddyfarnu'r un nifer o bwyntiau neu gario'r un pwys mewn mesurau perfformiad.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal ac ehangu argaeledd cymwysterau galwedigaethol. Roedd y sylwadau ar y thema hon yn aml yn gysylltiedig â sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu, a'r ymatebwyr yn amlygu pwysigrwydd y mathau hyn o lwybrau i ddysgwyr o wahanol alluoedd.

> *'Credwn y dylai fod cydbwysedd da o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'n bwysig bod yr amrywiaeth o gymwysterau'n caniatáu ar gyfer dilyniant i lwybrau academaidd (gan gynnwys disgyblaethau pwnc yn arwain at Safon Uwch neu gymhwyster cywerth ac yna lefel gradd) a galwedigaethol. Hefyd, dylai fod mwy o amrywiaeth o gyrsiau sy'n addas i ddisgyblion â gwahanol fathau o anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y disgyblion hyn gymwysterau pwrpasol i ddarparu'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion; yn aml, rhaid iddynt ddilyn fersiynau Lefel 1 o gyrsiau, nad ydynt yn aml yn bwrpasol i'w hanghenion a'u galluoedd.'* [Awdurdod lleol]

Roedd y themâu eraill a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- angen gwybodaeth fanylach am gymwysterau penodol;
- dylai cymwysterau TGAU gan gyrff dyfarnu heblaw CBAC fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru; a
- materion yn gysylltiedig â chyfyngiadau cyllid a diffyg gallu staff gyda darparwyr.

3.3.2 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

Codwyd llawer o themâu tebyg i'r uchod ymhlith y lleiafrif a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o bryder ynghylch y cynnig. Y themâu canlynol a godwyd amlaf gan y grŵp hwn.

Soniodd ymatebwyr mai canolfannau a/neu ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am y cymwysterau y dylid eu cynnig i ddysgwyr. Roedd ymatebwyr a anghytunai â'r egwyddor yn pwysleisio pwysigrwydd dewis y ganolfan. Nododd

[7] Llywodraeth Cymru (2019), *Methodoleg ar gyfer cyfrifo'r Sgôr Pwyntiau Capio 9 (interim)*.

ymatebwyr mai canolfannau ac ymarferwyr oedd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hyn ar sail eu dealltwriaeth o anghenion eu dysgwyr a'r farchnad lafur leol.

> *'Rôl arweinwyr, llywodraethwyr ac ymgynghorwyr her yr ysgol yw hon – dylent sicrhau bod pob ysgol yn darparu llwybrau priodol i bob dysgwr. Mewn rhai cyd-destunau, gallai hyn olygu culhau'r amrywiaeth. Mae'n ymwneud â'r broses arholi'n cynnig rhywbeth eang a chytbwys a hynny'n unol â'r pedwar diben.'* [Awdurdod lleol neu gonsortiwm addysg rhanbarthol]

Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd cynnal dewis priodol o gymwysterau sy'n addas i anghenion amrywiol dysgwyr. Mynegwyd y farn na ddylid cwtogi'r dewis o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr oherwydd gallai hyn roi rhai dysgwyr o dan anfantais.

Roedd materion eraill a godwyd gan y rheini a anghytunai â'r cynnig yn sylwadau mwy cyffredinol yn gysylltiedig â rheoli a goruchwylio cymwysterau, pryderon am gynnal defnydd neu werth cyfredol cymwysterau, sylwadau ynghylch sut mae diffinio 'teg' a 'chydlynol', ac y dylai cymwysterau TGAU o fyrddau arholi heblaw CBAC fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.

3.3.3 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd dysgwyr yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ymatebwyr o sôn am bwysigrwydd cynnal dewis i ddysgwyr, tegwch, dilyniant a defnydd cyfredol.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ymatebwyr o bwysleisio pwysigrwydd tegwch a sôn am faterion yn gysylltiedig ag asesu.
- Roedd rhanddeiliaid craidd ac ehangach yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ymatebwyr o sôn am faterion sy'n ymwneud â goruchwylio, sicrhau ansawdd ac osgoi dyblygu.
- Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ymatebwyr o sôn am bwysigrwydd cynnal dewis canolfannau/ymarferwyr ac atebolrwydd canolfannau.
- Ni soniodd y dysgwyr yn gyffredinol am bwysigrwydd dewis canolfannau, atebolrwydd canolfannau a sicrhau ansawdd.

3.4 Egwyddorion eraill

A oes unrhyw egwyddorion eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa gymwysterau i'w gwneud yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru?

Eglurwch eich ateb.

Darparodd cyfanswm o 235 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r rhain, nododd 14 eu bod yn fodlon ar y tair egwyddor, neu nad oeddent yn credu bod unrhyw egwyddorion eraill y dylai Cymwysterau Cymru eu hystyried. Felly, ar ôl gwaredu'r sylwadau hyn, cafodd sylwadau 221 o ymatebwyr eu dadansoddi'n thematig.

3.4.1 Egwyddorion eraill a nodwyd gan ymatebwyr

Roedd awgrymiadau'r ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio'n aml at egwyddorion a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. **Ailadroddodd ymatebwyr bwysigrwydd agweddau amrywiol ar Egwyddorion 1 a 3 yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn.** Yn y sylwadau a ailadroddodd bwysigrwydd Egwyddor 1, nodwyd bod angen i gymwysterau yn 16 oed gefnogi'r cwricwlwm newydd a soniwyd am bedwar diben y cwricwlwm yn egwyddor dywys. Mewn perthynas ag Egwyddor 3, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr â llai o allu academaidd, dysgwyr ADY, a'r rheini y mae'n well ganddynt gymryd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegodd ymatebwyr eu barn mewn perthynas â hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cynwysoldeb, hygyrchedd, sicrhau dewis i ddysgwyr a darparu ar gyfer pob dysgwr.

Yr egwyddorion eraill canlynol a godwyd amlaf gan yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal ac ehangu argaeledd cymwysterau galwedigaethol. Cododd ymatebwyr yr egwyddor hon yn aml mewn termau cyffredinol, yng nghyd-destun darparu llwybrau gyrfa ac addysgol priodol i ddysgwyr o bob gallu ac angen. Soniodd yr ymatebwyr a gododd yr egwyddor hon hefyd am bwysigrwydd sicrhau statws cyfartal i gymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Ar adegau, roedd ymatebwyr yn cefnogi eu barn gyda sylwadau mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol yn eu maes pwnc eu hunain neu gymwysterau galwedigaethol penodol yr oeddent yn eu defnyddio.

> *'Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai fod amrywiaeth yn y gyfres o gymwysterau a gynigir i ddisgyblion, gan gynnwys rhai academaidd a galwedigaethol, ond sydd hefyd drwy asesu anffurfiol heb ddibynnu'n gyfan gwbl ar arholiadau.'*
> [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig cynnal defnydd cyfredol a safonau cymwysterau a sicrhau bod cymwysterau o Gymru yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr a darparwyr ôl-16 y tu allan i Gymru. Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd sicrhau bod cyflogwyr yn parhau i gydnabod a gwerthfawrogi'r cymwysterau a wneir ar gael a bod cymwysterau'n cadw eu gwerth i ddysgwyr yn y farchnad lafur. Ystyriwyd ymhlith ymatebwyr fod cynnal

cludadwyedd cymwysterau yn bwysig, a hwythau'n crybwyll pwysigrwydd cymwysterau nad ydynt yn dargyfeirio'n ormodol o rai Lloegr. Soniwyd ar adegau am yr egwyddor hon ochr yn ochr â sylwadau am werth canfyddedig cynnal brand TGAU.

'Rhaid iddynt fod yn uchel eu parch yn rhyngwladol a dylai'r rheini sy'n profi gallu academaidd fod mor drwyadl â'r ddarpariaeth gyfredol – heb arholi meysydd dysgu eang yn unig neu ni fydd ein disgyblion yn gystadleuol yn y ras am leoedd prifysgol.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Bod y cymwysterau yn gwneud pobl ifanc yn barod am waith cyflogedig, o ddiddordeb i'r bobl ifanc, yn gallu cystadlu ar lefel ryngwladol.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau yn 16 oed yn rhan o lwybr dilyniant llyfn rhwng Cyfnod Allweddol 3 ac addysg ôl-16. Soniodd ymatebwyr fod angen sicrhau cydlyniad rhwng gwahanol gyfnodau addysg. Mynegwyd hyn hefyd fel 'osgoi gormod o naid' rhwng cyfnodau addysgol. Soniodd ymatebwyr hefyd am risgiau datblygu cymwysterau sy'n rhy eang ac nad ydynt yn galluogi arbenigo i baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau Safon Uwch. Codwyd y pwynt hwn weithiau ochr yn ochr â barn ymatebwyr ynghylch a ddylai cymwysterau gael eu cynnal mewn pynciau traddodiadol neu gymwysterau maes cwricwlwm ehangach (e.e. meysydd dysgu a phrofiad). Ar adegau, roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn cysylltu hyn â'r heriau cyfredol mewn perthynas â staff nad oes ganddynt abenigedd yn addysgu pynciau.

'Y pwynt a grybwyllwyd yn flaenorol ar reoli'r rhyngwyneb rhwng y cymwysterau newydd a'r cwricwlwm ôl-16 fyddai ein pryder allweddol. Mae uchelgais tuag at fwy o ddysgwyr yn parhau eu haddysg ôl-16 ac felly ni ddylai fod unrhyw wrthdaro yn y pontio rhwng cwricwlwm 2022 ac addysg alwedigaethol ôl-16 yn benodol.' [Cynrychiolydd Addysg Bellach]

Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cynnal amrywiaeth briodol o ddulliau asesu. Soniwyd am hyn yn nodweddiadol yn egwyddor gan ymatebwyr a nododd fod gwahanol ddulliau asesu yn addas i wahanol bynciau ac nad yw asesiad arholiad yn well gan bob dysgwr. Cododd ymatebwyr hyn yn aml ochr yn ochr â sylwadau am yr angen i ddarparu ar gyfer dysgwyr o bob gallu ac angen.

‘Mae’n rhaid ystyried bod pob pwnc neu gymhwyster yn cael ei addysgu mewn ffyrdd gwahanol ac felly o bosib bod angen iddo gael ei asesu mewn ffyrdd gwahanol. Credaf yn gryf ei bod yn amhosib asesu pob pwnc neu gymhwyster gan ddilyn yr un dull a bod angen cymysgedd o ddulliau asesu mewn pynciau er mwyn siwtio disgyblion o alluoedd gwahanol.’
[Gweithiwr addysg proffesiynol]

Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod cymwysterau yn 16 oed yn darparu sgiliau ehangach i ddysgwyr. Codwyd yr egwyddor hon mewn termau cyffredinol gan ymatebwyr, ac ar adegau roedd yn canolbwyntio ar feysydd dysgu penodol fel llythrennedd ariannol, dinasyddiaeth, sgiliau digidol, entrepreneuriaeth, sgiliau bywyd a sgiliau ymarferol.

Nododd ymatebwyr hefyd fod angen ystyried pwysau ariannol a gwerth am arian wrth wneud penderfyniadau am ariannu cymwysterau. Cododd ymatebwyr hyn yng nghyd-destun heriau cyllid yn y sector addysg, a phwysau cysylltiedig ar allu staff ac argaeledd adnoddau.

‘Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion yn wynebu toriadau yn ei cyllideb ac un ystyriaeth bwysig yw cost cymwysterau, adnoddau cysylltiedig a dysgu proffesiynol. Gall costau cynyddol ymgeisio am arholiadau ddwyn canlyniadau anfwriadol i ddysgwyr, oherwydd efallai bydd ysgolion yn anfodlon cyflwyno disgyblion nad ydynt yn sicr o gyflawni’n dda. Yn ôl yr ysgolion, maent yn wynebu cynnydd yn eu costau ymgeisio am arholiadau ac mae angen sicrhau bod pob cymhwyster yn cynnig gwerth da am arian.’
[Corff cyhoeddus]

Roedd egwyddorion eraill a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys yr angen i ystyried lles dysgwyr, hawliau plant, anghenion y farchnad lafur leol, atebolrwydd canolfannau a mesurau perfformiad, a symleiddio cymwysterau.

‘I sicrhau bod cymwysterau’n gyson â dull hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, cynigiaf dair egwyddor ychwanegol ar gyfer dyfarnu cyllid cyhoeddus i gymhwyster: Bod y cymhwyster yn cefnogi datblygiad optimaidd dawn a sgiliau, yn unol ag Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Bod y cymhwyster yn cefnogi lles plant a phobl ifanc. Bod profiadau a barn pobl ifanc wedi llywio’r penderfyniad i ddyfarnu cyllid cyhoeddus i’r cymhwyster hwn.’ [Comisiynydd]

3.4.2 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid addysg ehangach a chraidd yn fwy tebygol na dysgwyr o gynnig egwyddorion ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn; roedd y dysgwyr hynny a roes sylwadau yn nodi amlaf eu bod yn fodlon ar yr egwyddorion.
- Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn fwy tebygol na grwpiau eraill o gyfeirio at yr angen i gynnal neu wella argaeledd cymwysterau galwedigaethol.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd yn fwy tebygol na grwpiau eraill o sôn am asesu.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd ac ehangach yn fwy tebygol na grwpiau eraill o sôn am egwyddorion yn berthynol i gefnogi'r cwricwlwm, sicrhau cynwysoldeb a hygyrchedd, a defnydd neu werth cyfredol.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd ac ymarferwyr addysg yn fwy tebygol o sôn am faterion mewn perthynas â chludadwyedd.

4. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol

Roedd ‘Cymwys ar gyfer y dyfodol’ yn amlinellu cynigion Cymwysterau Cymru i gadw brand TGAU ond ailwampio’r cymwysterau eu hunain i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru. Holwyd barn yr ymatebwyr am y cynigion hyn.

4.1 Cadw’r enw TGAU

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw’r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r cynnig hwn?



Atebodd cyfanswm o 592 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 77% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig. Roedd 14% pellach yn cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol â’r cynnig. Darparodd cyfanswm o 295 sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (207 gan y rheini a oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf; 51 gan y rheini a oedd yn cytuno ac anghytuno’n rhannol; 26 gan y rheini a oedd yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf; ac 11 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ymateb i’r cwestiwn caeedig).

4.1.1 Cefnogaeth i’r cynnig hwn

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i’r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Dywedodd ymatebwyr fod cymwysterau TGAU yn gydnabyddedig. Mae ganddynt ddefnydd cyfredol ymhlith dysgwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg, a rhieni, a gallai unrhyw newid achosi dryswch ac ansefydlogrwydd dianghenraid i’r rhanddeiliaid hyn. Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai unrhyw newid fod yn niweidiol i Gymru. Roeddent o’r farn bod gan gyflogwyr hyder yng nghymwysterau TGAU a’r wybodaeth a’r sgiliau y maent yn eu hasesu. Roeddent yn cydnabod bod achos o blaid eu diwygio, a hynny’n bennaf er mwyn moderneiddio’r system gymwysterau, i’w gwneud yn addas at y diben. Fodd bynnag,

roeddent yn teimlo bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chefnu ar frand TGAU yn gorbwyso'r manteision hynny. Ar adegau, roedd ymatebwyr yn credu y gallai'r achos o blaid newid brand TGAU gael ei wneud yn ddiweddarach ac roeddent yn cefnogi'r sefyllfa sydd ohoni yn y cyfamser.

> *'Mae'n bwysig iawn bod statws byd-eang TGAU yn cael ei gadw. Yn ogystal, mae cyflogwyr yn hoffi defnyddio cymwysterau TGAU craidd (Mathemateg, Cymraeg a Saesneg ayb) er mwyn cymharu. Ond mae'n bwysig cael newid er mwyn y gwell ond does dim angen cymhlethu.'* [Dysgwr]

Roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod bod achos o blaid newid neu o leiaf diwygio cynnwys a fformat cymwysterau TGAU a chydnabod meysydd astudio newydd tra'n cadw'r enw TGAU. Roeddent yn credu y gellid newid y rhain gan gadw o hyd at frand TGAU. Credai'r ymatebwyr fod gan frandiau galwedigaethol lai o statws mewn perthynas â TGAU, ac y dylid ailenwi'r mathau hyn o gymwysterau (i TGAU, er enghraifft, pe byddai'r enw hwnnw'n cael ei gadw). Fodd bynnag, credai ymatebwyr eraill ei bod yn bwysig cadw brandiau cymwysterau galwedigaethol fel cymwysterau'r Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC), ac eto'n bennaf am eu bod wedi'u cydnabod a'u sefydlu.

Roedd ymatebwyr hefyd yn awyddus i sicrhau bod y safonau a'r manwl gywirdeb sy'n gysylltiedig â chymwysterau TGAU yn cael eu cadw, gan deimlo mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd cadw'r enw TGAU. Golygai hyn gadw at y safonau a'r athroniaeth a oedd yn sail i sefydlu cymwysterau TGAU. Roedd hefyd yn bwysig y dylai asesiadau TGAU barhau i gynnwys arholiadau, lle bo'n briodol.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig cadw cludadwyedd cymwysterau TGAU, a bod y cymhwyster yn cael ei gydnabod y tu allan i Gymru. Credai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig cadw cymhwyster a gydnabyddir yn fyd-eang a chyfeiriodd llawer yn benodol at yr angen i unrhyw gymhwyster a ddefnyddir yng Nghymru gael ei gydnabod mewn rhannau eraill o'r DU.

> *'Ni ddylai Cymru grwydro'n rhy bell i ffwrdd o'r cymwysterau sydd wedi'u sefydlu a'u deall, a'r safonau cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r byd yn mynd yn llai ac mae angen cymwysterau ar ein pobl ifanc sy'n cael eu cydnabod a'u parchu mewn rhannau eraill o'r DU a'r tu hwnt.'* [Sefydliad trydydd sector]

Nododd ymatebwyr y bu ymdrechion blaenorol i ddatblygu brandiau penodol i Gymru fel Bagloriaeth Cymru yn heriol oherwydd na fu'n hawdd argyhoeddi rhanddeiliaid yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd ynghylch syniad cymhwyster penodol i Gymru. Gallai cefnu ar enw TGAU greu amheuaeth am lefelau hyfedredd dysgwyr o Gymru. Ni fyddai hyn, yn eu barn hwy, o fudd i ddysgwyr yng Nghymru nac i enw da system addysg Cymru. Ar adegau, ymhelaethodd ymatebwyr, gan ddadlau bod sicrhau cydraddoldeb rhwng cymwysterau

TGAU yng Nghymru a Lloegr yn golygu y dylid newid cymwysterau TGAU yng Nghymru i gydredeg â'r cymwysterau TGAU diwygiedig yn Lloegr a mesur yr EBacc.[8]

Ymhlith y rheini o blaid cadw enw TGAU oedd rhai a oedd yn cydnabod bod angen newid cynnwys cymwysterau TGAU. Yn benodol, **roedd ymatebwyr yn cefnogi bod cynnwys cwrs yn cydredeg yn agosach ag anghenion economaidd y dyfodol.** Roedd un ymatebwr yn cefnogi archwilio sut y gellid teilwra cynnwys pynciau penodol i gyd-destun gwaith a defnyddio *'esiamplau o'r byd go iawn i arddangos defnydd cyfredol sgiliau'*.

> *'Rydym oll yn cytuno bod rhaid newid amrediad a chynnwys cymwysterau yn sylweddol er mwyn iddynt adlewyrchu'n wirioneddol fwriadau a chynnwys y cwricwlwm newydd, canolbwyntio ar y meysydd dysgu a phrofiad newydd, a chynnwys yr amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau a amlinellir.'* [Cyflogwr]

Teimlai'r ymatebwyr y dylid cymryd cymwysterau yn yr oedran mwyaf priodol i ddysgwyr. Ar y cyfan, cytunodd ymatebwyr y dylai cymwysterau TGAU barhau i gael eu cymryd yn 16 oed, ond roedd ychydig o gefnogaeth i alluogi pobl i'w sefyll yn nes ymlaen yn eu hoes, ar y sail nad yw rhai dysgwyr yn barod i sefyll arholiadau yn 16 oed.

4.1.2 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

Ymhlith y lleiafrif a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o bryder ynghylch y cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Ystyriwyd bod y cwricwlwm newydd i Gymru yn wyriad newydd radicalaidd i Gymru a theimlai'r ymatebwyr y dylai cymwysterau adlewyrchu hyn. Crybwyllodd ymatebwyr fod Cymru'n datblygu cwricwlwm newydd a chanddo flaenoriaethau a strwythurau newydd er mwyn ateb heriau'r dyfodol. Roeddent yn dadlau bod hwn yn darparu cwricwlwm modern, craff y dylid ei adlewyrchu yn y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu cymryd yn 16 oed.

> *'Nid yw cadw 'TGAU' yn anfon neges o newid ac mae'n debygol o atal pobl yn y proffesiwn rhag gwir dderbyn y newid sylfaenol yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â'r rheini y tu allan i'r proffesiwn. Os cedwir enw TGAU er mwyn lleddfu ofnau fod y cwricwlwm newydd yn 'llai' mewn unrhyw ffordd na'r cwricwlwm yn Lloegr / yr Alban, efallai ei bod yn llwfr o'i ystyried ochr yn ochr â'r mentro sy'n digwydd i ddatblygu rhywbeth arbennig yng Nghymru.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roeddent yn teimlo bod gofyn ymagwedd feiddgar felly a bod ffyrdd o fynd i'r afael â materion cymaroldeb â chymwysterau yn Lloegr a mannau eraill. Awgrymasant y gellid cyflawni hyn drwy gynllunio dulliau cymharu mwy trwyadl a choeth sy'n ystyried yn ystyrlon y

[8] Mesur o berfformiad yw Bagloriaeth Lloegr (EBacc) sy'n dangos y gyfran o blant mewn ysgol uwchradd sy'n cyflawni gradd C neu uwch mewn Saesneg, mathemateg, un o'r pynciau gwyddoniaeth, hanes neu ddaearyddiaeth, ac iaith.

gwahaniaethau yn y cymwysterau y mae dysgwyr 16 oed mewn gwahanol wledydd yn ymgymryd â hwy.

Nododd ymatebwyr y gallai cadw cymwysterau TGAU roi'r argraff anghywir, sef nad yw'r newidiadau cwricwlwm ond yn berthnasol hyd at 14 oed. Credai'r ymatebwyr fod yr ethos a'r egwyddorion sy'n sail i'r cwricwlwm newydd yn rhai a ddylai dywys profiadau dysgwyr hyd at 16 oed. Gallai cadw brand TGAU roi'r argraff fod y cwricwlwm yn cael ei newid hyd at 14 oed a bod y sefyllfa sydd ohoni'n berthnasol wedi hynny heb fod angen ei diwygio.

Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd y byddai cadw cymwysterau TGAU yn bytholi'r arfer o gymharu Cymru'n bennaf â Lloegr. Teimlai'r ymatebwyr fod y gymhariaeth hon yn ddi-fudd oherwydd anfanteision canfyddedig y system yn Lloegr, a hynny'n benodol yng nghyd-destun effaith niweidiol diwygiadau i gymwysterau TGAU yn Lloegr, yn eu barn hwy. Credai'r ymatebwyr y dylai Cymru fwrw ymlaen â chwricwlwm modern, wedi'i gynllunio gyda'i hanghenion ei hun mewn golwg ac wedi'i lywio gan arfer da rhyngwladol, heb gael ei rwystro gan yr angen i gadw brand TGAU na chydredeg â newidiadau sy'n digwydd yn y system addysg yn Lloegr.

> *'O ystyried y cynnwys, dewis pwnc (Bagloriaeth Lloegr) a dulliau addysgu mwyfwy "traddodiadol", bydd hyn, trwy ddiffiniad, yn cyfyngu o ddifrif ar gynllun y cwricwlwm a dulliau addysgeg, gan danseilio'n llwyr unrhyw ymgais at gyflenwi cwricwlwm newydd i Gymru. Llawer gwell os yw cymwysterau allanol i'w hystyried yn 16 oed i'r rhain ddilyn yr Alban a chael enw newydd sy'n arbennig i Gymru. Bydd hyn hefyd yn rhoi llawer mwy o ryddid i'r rheini sy'n cynllunio'r cwricwlwm newydd a bydd yn annog arloesedd addysgeg, oherwydd bydd pob rhanddeiliad yn gweld nad "ail-frandio" yr addysgeg ac asesu presennol yn unig mo hyn.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Bu'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r ddadl cludadwyedd yn uniongyrchol ar y sail na ddylai Cymru gael ei rhwystro gan ddulliau a oedd wedi'u cyflwyno yn Lloegr. Crybwyllodd ymatebwyr esiampl yr Alban, a ddilynodd ei thrywydd ei hun. Ar adegau, teimlai'r ymatebwyr fod model yr Alban yn debycach i'r hyn sydd ei angen ar Gymru.

Gan atseinio sylwadau'r rheini a oedd am gyflwyno dulliau coethach o asesu cymaroldeb rhwng gwahanol gymwysterau, nodwyd bod **cymwysterau TGAU eisoes wedi dargyfeirio i ryw raddau a'i bod yn debygol na fyddai cymwysterau TGAU yng Nghymru yn asesu'r un cynnwys a sgiliau â'r rheini yn Lloegr.** Felly, byddai enw newydd yn ofynnol i wahaniaethu rhwng y ddau gymhwyster, o ystyried y byddent yn gweithio i wahanol fanylebau.

Credai'r ymatebwyr y gallai newid y derminoleg arwain at fri cyfartal i bob cymhwyster. Soniodd ymatebwyr y byddai newid yn galluogi cyfres newydd o gymwysterau i Gymru i gynnwys pynciau galwedigaethol a gynigir i ddysgwyr 14-16 oed (a sicrhau bri cyfartal iddynt).

4.1.3 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd rhanddeiliaid addysg ehangach a chraidd yn fwy tebygol nag eraill o sôn am enw TGAU, ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch cadw'r enw ai peidio.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd hefyd yn fwy tebygol o godi mater cydraddoldeb â chymwysterau yng ngweddill y DU, yn benodol Lloegr.
- Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o sôn am amseru arholiadau ymhlith eu pryderon a gwerthfawrogi'r ffaith bod cymwysterau TGAU yn gymwysterau sefydledig a chydnabyddedig. Roedd dysgwyr hefyd yn fwy tebygol o awgrymu'n benodol sut y gellid diwygio cymwysterau TGAU i'w gwneud yn fwy addas i anghenion pobl ifanc mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.
- Bu pob grŵp o ymatebwyr yn pwysleisio'n aml fod TGAU yn frand cydnabyddedig y tu allan i Gymru a bod defnydd cyfredol a chludadwyedd felly yn perthyn iddo.

4.2 Awgrymu sut gallai cymwysterau TGAU newid

A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i gymwysterau TGAU newid i gyflawni ein gweledigaeth ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?

Esboniwch eich ateb.

4.2.1 Awgrymiadau gan yr ymatebwyr

Darparodd cyfanswm o 354 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r sefyllfa sydd ohoni am nad oedd yr achos dros newid wedi'i wneud. Roeddent o'r farn y dylid cadw brand TGAU (fel yr adlewyrchwyd mewn ymatebion i'r cwestiwn blaenorol). Pwysleisiwyd bod angen i arholiadau TGAU fod yn ddigon trwyadl a heriol.

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau ynglŷn ag amrediad y dulliau asesu y dylid eu defnyddio a'r cydbwysedd rhwng y gwahanol ddulliau hynny. Ar adegau, credai'r ymatebwyr yn gryf y dylid cwtogi ar yr asesu sy'n digwydd drwy arholiadau. Yn gyffredinol, credai'r ymatebwyr y dylid rhoi mwy o ffocws ar asesu sgiliau yn hytrach na phrofi'r hyn yr oedd dysgwyr wedi'i ddysgu ar eu cof.

Soniodd ymatebwyr yn aml am bwysigrwydd defnyddio amrediad o asesiadau di-arholiad.[9] Mae asesiadau di-arholiad yn cwmpasu amrywiaeth o ddulliau asesu (gan gynnwys gwaith cwrs, asesiadau llafar, gwaith maes, gwaith portffolio ac asesiadau ymarferol) yn fodd o asesu dysgwyr ar lefel TGAU.

Ymhlith yr awgrymiadau roedd:

- cynyddu'r gwaith a asesir gan ymarferwyr sy'n cael ei gynnwys mewn cymwysterau TGAU;

[9] Diffinnir y rhain yn fath o asesiad heblaw arholiad a gymerir gan bob ymgeisydd ar yr un pryd.

- mwy o waith cwrs ar sail prosiect;
- asesu sy'n canolbwyntio ar dasg;
- defnyddio profion modiwlaidd;
- datblygu'r defnydd o bortffolios o dystiolaeth; ac
- asesu sgiliau fel rhoi cyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn.

Amlygodd ymatebwyr fod angen ystyried dysgwyr anabl drwy sicrhau bod cymwysterau'n gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr. Yn benodol, cyfeiriwyd at bwysigrwydd gwneud arholiadau'n hygyrch i ddysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY. Amlygodd ymatebwyr anghenion dysgwyr a gredai nad oedd y system gyfredol yn eu gwasanaethu, yn enwedig y rheini nad yw arholiadau yn hygyrch iddynt ar hyn o bryd.

Credai'r ymatebwyr hefyd y dylai asesiadau sydd wedi'u teilwra i lefel gwaith dysgwyr unigol gael eu defnyddio'n amlach, yn hytrach na defnyddio asesiadau safonedig yn bennaf.

> *'Mae rhai myfyrwyr yr aseswyd bod arnynt ddyslecsia difrifol, er enghraifft, yn gallu cael hyd at 50% o amser ychwanegol mewn arholiad, ond maent yn sefyll yr un papur â phawb arall. Dyma fy mhroblem i gyda hyn: os na allwch roi'r llythrennau/geiriau yn eu trefn gywir mewn dwy awr, allwch chi ddim gwneud hynny mewn tair awr chwaith. Yn benodol yn achos y papur Saesneg Iaith, nid yw hyn yn gymhariaeth deg. Mae angen cael papur ar wahân i'r rheini â datganiad angen.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Credai'r ymatebwyr y gellid dysgu llawer o'r dulliau amgen a ddefnyddir yn nodweddiadol i asesu dysgu galwedigaethol. Credwyd bod y rhain yn defnyddio dulliau asesu mwy hyblyg. Fodd bynnag, nid oedd pawb o'r un farn. Ar adegau, **roedd ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch defnyddio dulliau yn lle arholiadau diwedd cwrs sy'n cael eu marcio'n allanol, a hynny'n bennaf ar sail manwl gywirdeb a'r angen i gael safbwyntiau allanol i sicrhau safoni a didueddrwydd.** Cyfeiriodd ymatebwyr yn benodol at y risg y gallai canolfannau ac ymarferwyr unigol geisio chwyddo graddau os defnyddir asesu gan ymarferwyr yn brif ddull asesu. Credai'r ymatebwyr fod hyn yn anochel os parheir i ddefnyddio canlyniadau TGAU yn fesur atebolrwydd yn y system. Amlygwyd mater gwahanol gan ymatebwyr a oedd yn poeni am oblygiadau cynyddu asesiadau di-arholiad ar gyfer baich gwaith ymarferwyr.

Roedd barn gymysg ynglŷn ag i ba raddau y dylid defnyddio dulliau asesu ar-lein neu ddigidol. Ar adegau, roedd ymatebwyr yn cefnogi defnyddio mwy o asesu ar-lein neu ddigidol. Fodd bynnag, roedd ychydig hefyd yn pryderu nad oedd y seilwaith a'r gallu ar gyfer asesu digidol / e-asesu yn ddigonol ar hyn o bryd.

Roedd barn gymysg ynglŷn â defnyddio asesiadau haenog, na soniwyd amdanynt ond gan nifer fechan iawn o ymatebwyr; roedd rhai'n credu eu bod yn ddefnyddiol, ac eraill yn teimlo y gallent atal cymhelliant dysgwyr, yn enwedig os yw eu canlyniadau'n cael eu cyfyngu oherwydd yr haen yr oeddent wedi ymgeisio amdani.

Ailadroddodd ymatebwyr y pwynt a wnaed mewn ymateb i gwestiynau blaenorol am

yr angen i newid y ffordd o adrodd ar ganlyniadau cymwysterau. Awgrymwyd y gellid defnyddio graddau rhifol (er enghraifft, 1-7). Fodd bynnag, dadleuodd eraill yn erbyn newid, gan nodi bod mesurau fel pum A*-C yn cael eu cydnabod yn helaeth, er enghraifft gan gyflogwyr, rhieni a dysgwyr, a'u bod hefyd yn sail i fesur perfformiad canolfan. Byddai felly'n hanfodol sicrhau bod unrhyw system newydd yn cael ei deall yn dda pe byddai unrhyw newid yn cael ei wneud.

Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau'n asesu sgiliau dysgwyr mewn llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd adlewyrchu blaenoriaethau'r cwricwlwm newydd, er enghraifft:

- sicrhau bod sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr yn cael eu hasesu;
- ystyried sgiliau fel creadigrwydd, datrys problemau, a sgiliau digidol a chyfathrebu;
- mesur gallu dysgwyr i fagu perthnasoedd hirhoedlog sy'n seiliedig ar empathi; a
- chydnabod ymddygiadau dysgwyr – er enghraifft, a ydynt wedi dangos nodweddion dysgwyr mentrus, hyderus a chadarn.

Ar yr un pryd, cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at yr angen i archwilio gallu dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth.

Fodd bynnag, er bod rhai ymatebwyr yn amlygu pwysigrwydd sgiliau dysgwyr, bu ymatebwyr eraill weithiau'n pwysleisio bod angen asesu cynnwys pwnc yn drwyadl. Roedd gwahaniaeth barn rhwng yr ymatebwyr ynghylch y cwestiwn yn gofyn a ddylai arholiadau barhau i asesu dysgwyr ar sail eu perfformiad mewn pynciau unigol, ar sail meysydd cwricwlwm, neu ar gyfuniad o'r ddau ddull. Credai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig cadw pynciau unigol a hynny'n bennaf oherwydd y sgiliau a ddatblygir, a'r wybodaeth arbennig a fagir, drwy astudio disgyblaethau pwnc unigol. Roeddent o'r farn y byddai asesu dysgwyr yn ôl maes cwricwlwm yn lleihau gwerth y cymwysterau, a hynny'n bennaf am eu bod yn credu y gellid colli'r manwl gywirdeb sy'n gysylltiedig â phynciau unigol a'u cynnwys. Dadleuodd ymatebwyr eraill i'r gwrthwyneb, o blaid integreiddio pynciau unigol yn fwy yn unol â strwythur y cwricwlwm newydd. Roedd ymatebwyr hefyd yn cefnogi creu system sy'n seiliedig ar asesu pynciau unigol yn gydrannau annibynnol o fesur ehangach, cyffredinol o gyflawniad dysgwr ym mhob maes cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oedd y farn hon yn un helaeth a phrin y crybwyllwyd yn fanwl sut y byddai trefniant o'r fath yn gweithio.

Credai'r ymatebwyr y dylai unrhyw gymwysterau TGAU diwygiedig baratoi dysgwyr yn ddigon da i astudio pynciau mewn Safon Uwch a'r tu hwnt. Yn eu barn hwy, ystyrir nad yw hyn bob amser yn digwydd ar hyn o bryd ac ni ddylai unrhyw ddiwygiad i'r cwricwlwm (gan gynnwys symud tuag at integreiddio meysydd cwricwlwm yn fwy cyn-14) danseilio parodrwydd dysgwyr i symud ymlaen i astudiaeth sy'n benodol i bwnc.

Nodwyd pwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol hefyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. **Cefnogodd ymatebwyr yr egwyddor o gynnig cymwysterau TGAU mewn meysydd pwnc mwy galwedigaethol. Dywedasant hefyd y byddai angen cynyddu statws cymwysterau galwedigaethol, i sicrhau parch cyfartal â chymwysterau TGAU mewn pynciau traddodiadol.**

'Er eu bod wedi asesu sgiliau ymarferol, nid yw cymwysterau TGAU yn draddodiadol wedi cyrraedd agweddau ehangach, mwy galwedigaethol ar ddysgu… Mae'r ymgynghoriad yn ei gwneud yn glir nad cymwysterau TGAU fydd yr unig gymhwyster ar gael, ond bod cyfle i ddatblygu cymwysterau TGAU galwedigaethol. Os datblygir y gymysgedd hon o gymwysterau TGAU, efallai bydd angen gwaith i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau hyn, gan gadw cryfder y brand ar yr un pryd.' [Corff cyhoeddus]

Cyfeiriodd y rheini a gefnogai gymwysterau TGAU mwy galwedigaethol yn benodol at bynciau galwedigaethol fel iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, mecaneg, gwaith plymwr, a phynciau eraill lle mae sgiliau ymarferol yn ofynnol.

Fodd bynnag, **cafwyd gair o rybudd gan ymatebwyr a oedd yn pryderu am allu ysgolion i gynnig cymwysterau TGAU galwedigaethol** i ddysgwyr. Roedd ymatebwyr yn poeni y gallai fod diffyg ymarferwyr sydd â phrofiad a chymwysterau addas i gyflenwi cymwysterau felly'n effeithiol.

'Mae materion ynghylch y sgiliau a'r wybodaeth broffesiynol sy'n ofynnol i addysgu cyrsiau felly a disgwyliadau a dealltwriaeth y dysgwyr sy'n eu hastudio. [Rydym yn mentro] ymddieithrio os na chaiff y dysgwyr brofiad cadarnhaol gan athrawon sydd â'r wybodaeth broffesiynol ofynnol i addysgu meysydd pwnc mwy galwedigaethol.' [Sefydliad trydydd sector]

4.2.2 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid addysg craidd yn fwy tebygol nag eraill o awgrymu meysydd cwricwlwm penodol lle byddai angen diwygio yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol hefyd yn llawer mwy tebygol na grwpiau eraill o wneud awgrymiadau am fuddioldeb cynnal y sefyllfa gyfredol neu fel arall.
- Roedd rhanddeiliaid addysg craidd yn fwy tebygol o grybwyll materion yn gysylltiedig â hygyrchedd ac anghenion mathau penodol o ddysgwyr.
- Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o ganolbwyntio eu hawgrymiadau ar gynnwys a chynllun arholiadau a hefyd yr angen am gymwysterau galwedigaethol.
- Roedd pob grŵp o ymatebwyr yn tynnu sylw'n aml i'r angen am gydbwysedd priodol rhwng asesu sgiliau a gwybodaeth.

5. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach

Roedd ‘Cymwys ar gyfer y dyfodol’ yn amlinellu cynnig Cymwysterau Cymru i gynnwys cymhwyster penodol sy’n cefnogi datblygiad ac asesiad y sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd i Gymru yn rhan o’r cynnig cymwysterau. Holwyd barn yr ymatebwyr am y cynnig hwn.

5.1 Cymhwyster sy’n cefnogi datblygiad ac asesiad sgiliau ehangach

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r cynnig hwn?



Atebodd cyfanswm o 573 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 62% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig. Roedd 16% pellach yn cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol â’r cynnig, a 14% naill ai’n anghytuno neu’n anghytuno’n gryf. Darparodd cyfanswm o 297 sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (165 gan y rheini a oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf; 49 gan y rheini a oedd yn cytuno’n rhannol ac anghytuno’n rhannol; 64 gan y rheini a oedd yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf; a 19 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ymateb i’r cwestiwn caeedig).

5.1.1 Cefnogaeth i’r cynnig hwn

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o gefnogaeth i’r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Soniodd ymatebwyr fod angen i unrhyw asesiad o sgiliau ehangach fod yn destun ystyriaeth ofalus o ran y sgiliau i’w harddangos a sut y dylid eu hasesu. Roedd cefnogaeth eang i’r syniad o fodd o asesu’r sgiliau ehangach, ond teimlad bod angen ystyried hyn yn drwyadl cyn gwneud unrhyw newidiadau. Yn benodol, roedd ar ymatebwyr eisiau mwy o fanylion o ran dulliau asesu sgiliau ehangach ac eglurder ynghylch statws cymhwyster sy’n seiliedig ar sgiliau. Galwodd ymatebwyr hefyd am ragor o eglurder o ran cynnwys cymhwyster seiliedig ar sgiliau a phwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu’r cynnig yn

llawn cyn ei weithredu.

Teimlai'r ymatebwyr y dylai cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd, astudiaeth a chyflogaeth yn y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn cydnabod gwerth y sgiliau yn cael eu haddysgu yn rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Roeddent yn pwysleisio bod y sgiliau y mae dysgwyr yn eu datblygu yr un mor bwysig â'r wybodaeth a fagant o gynnwys cymhwyster. Teimlai'r ymatebwyr y byddai ffocws ar ddatblygu sgiliau drwy gymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau yn darparu parhad gyda'r pwyslais ar sgiliau yn y cwricwlwm newydd. Roeddent o'r farn y dylai'r math o sgiliau y dylid eu datblygu a'u hasesu fod yn ehangach na sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, ac y dylent gynnwys:

- sgiliau ehangach sydd eu hangen yn y gweithle fel datrys problemau a chynllunio, creadigrwydd, a meddwl yn feirniadol;
- y sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i fyw'n annibynnol fel rheoli arian, cymorth cyntaf, sgiliau ymarferol, a hyrwyddo eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain; a'r
- sgiliau y mae eu hangen ar bobl ifanc i fyw fel dinasyddion cyfrifol ac i barchu hawliau dynol.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi defnyddio dulliau asesu mwy hyblyg ochr yn ochr ag arholiadau ysgrifenedig, gan gynnwys asesu elfennau fel siarad cyhoeddus a chynhyrchu tystiolaeth drwy wahanol gyfryngau, fel cyfryngau digidol.

> *'Mae'r sgiliau ehangach, neu sgiliau cyflogadwyedd, yn cael eu hystyried, gan lawer o gyflogwyr, ymhlith rhai o'r sgiliau pwysicaf sy'n ofynnol gan gyflogeion y dyfodol. Pwysig yw rhoi'r gydnabyddiaeth briodol iddynt ac, os oes modd, eu hintegreiddio mewn cyd-destunau mewn cymwysterau TGAU eraill.'* [Sefydliad trydydd sector]

Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid asesu sgiliau ehangach o fewn pynciau cwricwlwm neu mewn cymhwyster annibynnol. Ar adegau, soniodd ymatebwyr fod angen ymgorffori sgiliau mewn addysgu a dysgu a'i bod yn bwysig bod y cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau yn cysylltu â'r cymwysterau eraill yr oedd dysgwyr yn ymgymryd â hwy. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau mewn modd integredig (ac yn unol ag egwyddorion y cwricwlwm newydd). Byddai hefyd yn lleihau'r baich asesu ar ddysgwyr, yr oedd rhai ymatebwyr yn credu ei fod eisoes yn ormodol.

> *'Byddem yn argymell bod Cymwysterau Cymru yn archwilio sut gallai fod yn bosibl cysylltu'r cymhwyster hwn â chydran sgiliau unigol y gwahanol gymwysterau mewn rhyw ffordd i sicrhau bod dysgwyr yn gweld y cysylltiad rhwng y cymhwyster hwn a'u dysgu arall o ystyried ethos y cwricwlwm newydd.'* [Corff cynrychiadol]

Teimlai ymatebwyr eraill y bu ymdrechion blaenorol i amlygu sgiliau o fewn pynciau cwricwlwm yn aflwyddiannus. Roeddent felly'n cefnogi dull lle byddai'r sgiliau'n cael eu neilltuo a'u haddysgu'n benodol yn bwnc ar wahân yn arwain at gymhwyster penodol, am eu bod yn teimlo fel arall y gallai'r sgiliau fynd ar goll wrth i ymarferwyr ganolbwyntio ar gynnwys. Roeddent yn credu bod hyn yn galw am ymarferwyr arbenigol, hyfforddedig.

> *'Byddai unrhyw ddull a ofynnai addysgu sgiliau hanfodol yn benodol yn ystod dysgu arall yn llafurus, yn ddryslyd, yn gallu arwain at gyflenwi anghyson, ac yn llawer anoddach o ran asesu cymhwysedd a nodi a goresgyn anawsterau posibl. Byddai'n llawer gwell, yn fy marn i, sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu a'u profi ar wahân, gan ofyn am eu cymhwyso a'u monitro yn rhan o gymwysterau eraill hefyd. Yn y modd hwn, gallai profion sgiliau mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill gael eu cymhwyso'n fwy organig.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Credai'r ymatebwyr hefyd, ni waeth pa ddulliau a fabwysiadir, y byddai'n bwysig sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae canolfannau'n addysgu sgiliau i ddysgwyr ac yn cefnogi dysgwyr i gyflawni cymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr na ddylai cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau fod â strwythur rhy caeth ac y dylai fod digon o hyblygrwydd o ran ei gyflenwi a'i asesu. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig ystyried yn ofalus sut y byddai'n cael ei asesu yn rhan o'i broses gynllunio. Roeddent yn credu bod angen sicrhau nad oedd trefniadau asesu yn gosod baich ychwanegol ar ganolfannau, gan amlygu problemau gyda chymwysterau seiliedig ar sgiliau cyfredol (a blaenorol). Amlygwyd un pwynt gwahanol ond cysylltiedig gan ymatebwyr a gyfeiriodd at y gofynion presennol ar gwricwlwm yr ysgol ac roeddent yn pryderu y gellid ystyried bod cymwysterau seiliedig ar sgiliau yn ychwanegu at y pwysau gwaith oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno a'u rheoli'n effeithiol.

Ar adegau, roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â syniad cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn defnyddio'r cyfle i feirniadu cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau gyfredol, sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru. Yn wir, nid oedd rhai'n credu y dylai'r asesiad o sgiliau fod yn rhan o Fagloriaeth Cymru yn y dyfodol.

> *'Dylid newid Bagloriaeth Cymru oherwydd ar hyn o bryd nid yw'n berthnasol iawn ac mae'n llyncu amser gwerthfawr. Dylem ddysgu am bethau a fydd yn helpu ein dyfodol go iawn, fel trethi a morgeisi, ac nid creu cynnyrch. Mae pobl sydd am wneud hynny'n dewis astudio busnes.'* [Dysgwr]

5.1.2 Pryderon ynghylch y cynnig hwn

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, neu fel arall yn mynegi rhyw lefel o bryder ynglŷn â'r cynnig, y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Ystyrir ei bod yn bwysig bod cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau yn magu defnydd cyfredol ymhlith pob rhanddeiliad. Roedd ymatebwyr o'r farn hon yn credu y byddai cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn gymhwyster diystyr, heb fod o fawr o werth i ddysgwyr, ac y byddai'n atal cyfleoedd i fynd ar drywydd cymhwyster TGAU amgen. Roeddent o'r farn nad oedd cymwysterau seiliedig ar sgiliau generig erioed wedi magu defnydd cyfredol. Hefyd, dadleuwyd y byddai cynnwys cymhwyster seiliedig ar sgiliau gwahanol yn cynrychioli ymarfer ticio bocs arall nad oedd yn cael ei werthfawrogi gan ddysgwyr ac nad oedd yn gwneud dim ond ychwanegu at y pwysau arnynt yn 16 oed. Teimlwyd hefyd fod rhai o'r sgiliau arfaethedig yn anodd iawn eu mesur a'i bod felly'n gamarweiniol ceisio eu hasesu.

> *'Nid yw cymwysterau seiliedig ar sgiliau erioed wedi cael cefnogaeth myfyrwyr, a dweud y gwir, am eu bod yn rhai generig, ac ni all disgyblion weld sut y byddant yn arwain at astudiaeth bellach. Mae wedi ymddangos ar amryw ffurf o Astudiaethau Cyffredinol i'r Her Sgiliau gyfredol, ac ni fu ganddo byth apêl boblogaidd. Yn fy mhrofiad i, byddai'n well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio'r amser cwricwlwm i ddilyn opsiwn TGAU arall.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Dywedodd ymatebwyr y dylai unrhyw gymhwyster seiliedig ar sgiliau gael ei hyrwyddo'n effeithiol gyda sail resymegol glir ynglŷn â'i werth, ei ddiben a'i gynnwys, a sut y caiff ei asesu. Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle i sôn am Fagloriaeth Cymru, a hynny mewn perthynas â'r cysyniad a'r ffordd y caiff ei strwythuro a'i gweithredu. Ar adegau, nododd ymatebwyr nad oedd gwledydd eraill wedi cyflwyno rhaglen debyg i Fagloriaeth Cymru ac nad oedd rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys rhai sefydliadau addysg uwch) yn cydnabod ei bod o unrhyw werth.

> *'Rhaid i addysg ganolbwyntio ar gael lle mewn prifysgol neu brentisiaeth. Bydd cymhwyster sgiliau ehangach yn debyg i Fagloriaeth Cymru, nad yw'n cael ei derbyn mewn llawer o brifysgolion, ac yn y pen draw yn tynnu sylw i ffwrdd o gymwysterau ystyrlon allweddol.'* [Dysgwr]

Roeddent yn teimlo y byddai cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn cymryd amser ac ymdrech i ffwrdd o bynciau academaidd. Estynnodd y farn hon i rai a oedd yn cydnabod gwerth y sgiliau a ddatblygir drwy Fagloriaeth Cymru.

> *'Er fy mod wir yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r cymhwysedd y mae Bagloriaeth Cymru'n canolbwyntio arnynt, mae'n wir nad yw'r cymhwyster hwn yn cael ei barchu a'i werthfawrogi gan lawer o ysgolion a hyd yn oed cyrff allanol, a'r pryder yw y bydd yr hanes hwn yn dilyn ac yn glynu wrth y "cymhwyster newydd".'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd barn y byddai angen i gymhwyster seiliedig ar sgiliau arddangos sut mae'n ychwanegu gwerth at y cwricwlwm. Roedd barn gref ymhlith y rheini a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig fod y sgiliau gofynnol eisoes yn cael eu

haddysgu drwy bynciau unigol ac y byddai cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn dyblygu'r hyn a wneir eisoes. Roeddent o'r farn y byddai sgiliau'n cael eu datblygu'n organig pe byddai'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddilyn yn ôl y bwriad.

> *'Dylai datblygiad y sgiliau hyn fod yn rhan annatod o bob cymhwyster. Mae cymwysterau annibynnol ar gyfer sgiliau yn magu hapchwarae diwerth. Hefyd, ac yn bwysicaf oll, ystyria'r disgyblion eu bod yn faich amherthnasol.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Roedd sylwadau eraill yn codi pryderon am gludadwyedd a statws (yn enwedig yn Lloegr) unrhyw gymhwyster seiliedig ar sgiliau y byddai dysgwyr yng Nghymru yn unig yn ei wneud. Credai rhai bod ffocws ar sgiliau yn lleihau'r amser y gellid ei roi i ddisgyblaethau pwnc ac y byddai hyn yn niweidiol i ddysgwyr yng Nghymru sy'n gorfod cystadlu ag eraill, o Loegr yn enwedig.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at ansawdd y gweithredu. Roeddent yn credu y dylai Cymru ganolbwyntio ar weithredu'r Dystysgrif Her Sgiliau yn well, yn hytrach na datblygu ymagweddau newydd.

Cafwyd pryderon hefyd am y baich gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â chymhwyster seiliedig ar sgiliau. Cyfeiriodd ymatebwyr at brofiadau blaenorol a theimlwyd y dylid llawn werthfawrogi maint y dasg o asesu'r holl sgiliau.

> *'Yn gyffredinol yn y gorffennol, lle aseswyd sgiliau ehangach drwy gymwysterau annibynnol, mae'r cymwysterau hyn wedi cael adborth gwael gan ddisgyblion ac athrawon oherwydd ailadrodd a baich gwaith. Er mwyn cyflwyno cymwysterau penodol, newydd i gefnogi datblygiad ac asesiad yr holl sgiliau ehangach, byddai gofyn newid ymagwedd yn sylweddol yn y sector addysg.'* [Corff cyhoeddus]

Roedd ymatebwyr yn pryderu y gellid ystyried bod y cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn llai pwysig neu'n llai trwyadl, yn enwedig petai'n cael ei asesu gan ddefnyddio dulliau asesu di-arholiad. Fodd bynnag, rhybuddiwyd hefyd y byddai'n amhriodol asesu rhai o'r sgiliau gan ddefnyddio arholiadau. Ni ddylid colli cyfleoedd i asesu sgiliau ym mhrif raglenni dysgu dysgwyr.

Roedd ymatebwyr a oedd heb benderfynu hefyd yn credu nad oedd y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei gweithredu'n gyson ledled Cymru a bod hyn yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi pe byddai cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

5.1.3 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn fwy tebygol o gynnig sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn na grwpiau eraill, ac o gyfeirio at yr angen i ymgorffori sgiliau ehangach mewn cymwysterau sydd eisoes yn bodoli. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o wrthwynebu'r cysyniad o gymhwyster sgiliau (neu seiliedig ar sgiliau) neu

o fynegi rhywfaint o bryder ynghylch ei weithredu.

- Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o gynnig awgrymiadau ar gyfer mathau penodol o sgiliau ehangach yr oeddent yn teimlo y dylid eu hasesu.
- Roedd pob grŵp o ymatebwyr, ar wahân i ddysgwyr, yn pwysleisio'n aml fod angen i unrhyw gymhwyster newydd mewn sgiliau ehangach fod yn destun ystyriaeth ofalus cyn ei gyflwyno, er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

5.2 Awgrymu sut gallai'r Dystysgrif Her Sgiliau newid

A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 newid i gyflawni ein gweledigaeth a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?

Esboniwch eich ateb.

5.2.1 Awgrymiadau gan yr ymatebwyr

Darparodd cyfanswm o 221 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Amlygodd ymatebwyr bryderon ynglŷn â chynllun y Dystysgrif Her Sgiliau gyfredol. Roedd llawer a oedd o blaid egwyddor y Dystysgrif Her Sgiliau yn fras yn beirniadu agweddau penodol ar ei gweithredu ond **yn credu y gallai fod yn ddefnyddiol petai'n cael ei diwygio.** Awgrymasant y **gellid gwneud hyn drwy ei strwythuro'n well** a theimlwyd y gallai hyn arwain at brofiad mwy cadarnhaol i ddysgwyr. I wneud hyn, awgrymwyd:

- newid strwythur y cymhwyster drwy ddiwygio'r pwysoliad a osodir ar elfennau unigol yn yr asesiad cyffredinol;
- lleihau sawl gwaith y mae'n rhaid asesu sgìl;
- cyflwyno ystod ehangach o weithgareddau yn y Dystysgrif Her Sgiliau; a
- gweithio i fanylebau llai haearnaidd a rhagnodol.

> *'Gallai'r Dystysgrif Her Sgiliau ddarparu'r profiadau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu neu fireinio'r sgiliau meddwl beirniadol a sgiliau eraill sy'n bwysig ar gyfer addysg bellach a dysgu gydol oes a chefnogi'r broses o ymgorffori'r pedwar diben. Fodd bynnag, er gwaethaf llawer o gryfderau, mae ei strwythur a'i threfniadau asesu cyfredol wedi arwain at ailadrodd a gorasesu'r heriau ar draul datblygu sgiliau ehangach. Cafwyd gormod o ddyblygu yn y Dystysgrif Her Sgiliau ac, yn ôl y disgyblion, nid yw diben y gweithgareddau bob amser yn glir.'* [Corff cyhoeddus]

Cyfeiriasant at y dull a fabwysiadwyd i gyflenwi Gwobr Dug Caeredin, gan gredu bod hwn yn cynnig model y gellid ei addasu yng Nghymru:

'Oni allai fod yn llawer mwy organig ac yn debycach i Wobr Dug Caeredin lle gellir credydu gweithgareddau a sefydlir yn naturiol tuag at gyrraedd y cymhwyster cyffredinol. Wedi'i mygu gan baramedrau cul yr heriau gosodedig … ar hyn o bryd, mae llawer o ddisgyblion yn colli pob brwdfrydedd dros y cymhwyster oherwydd natur ailadroddus yr heriau a maint pur y cynnwys.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ochr yn ochr â'r sylwadau hyn, **awgrymodd ymatebwyr sut y dylid asesu Tystysgrif Her Sgiliau a'i threfniadau cyflenwi.** Nodwyd ganddynt fod angen i sgiliau gael eu harddangos, yn hytrach na'u harholi, gan deimlo bod hynny'n galw am ddefnyddio dulliau 'asesu byw', lle mae aseswyr yn gweithio ochr yn ochr â dysgwr i nodi a yw wedi datblygu'r sgiliau gofynnol, ac i ba raddau.

'Mae angen penodol sicrhau, ni waeth ar ba ffurf y bydd y Dystysgrif Her Sgiliau, ei bod yn wahanol iawn yn CA4 a CA5 fel nad yw'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yr un peth unwaith yn rhagor.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai sgiliau gael eu datblygu a'u hasesu drwy gydol amser dysgwr yn y system addysg a bod y pwyslais ar Gyfnod Allweddol 4 yn y cwestiwn yn ddi-fudd. Roeddent yn cefnogi dull lle caiff sgiliau eu hintegreiddio a'u hasesu yn llawer cynharach.

'Gweithio gydag ymarferwyr CA2 a CA3. Sut mae/gall athrawon cynradd a CA3 gyflwyno'r gwerthoedd a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y Dystysgrif Her Sgiliau?
Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth gan randdeiliaid ac yn sicrhau nad yw'r cymhwyster yn cael ei ystyried fel ychwanegyn o gymhwyster ym Mlwyddyn 9/10.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Credai'r ymatebwyr fod perygl dyblygu a diffyg eglurder ynghylch diben rhai asesiadau.

'Mae angen i'r her sgiliau fod yn annibynnol o'r hyn sydd yn digwydd yn CA4. Mae teimlad ar hyn o bryd bod y cymhwyster yn ailadrodd llawer o'r un cynnwys. Dylid ystyried elfennau mwy galwedigaethol gyda phrofiadau ymarferol i'r bobl ifanc. Dylai'r cymhwyster gael ei leihau o ran y pwysau gwaith. Os yw'r Her Sgiliau yn mynd i barhau yn CA5, buaswn yn rhoi ystyriaeth i beidio rhedeg y cymhwyster yn CA4.' [Awdurdod lleol]

Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen darparu i ymarferwyr gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus a chychwynnol o ansawdd uchel. Amlygodd ymatebwyr

bwysigrwydd gwella hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i ymarferwyr, ynghyd â chanllawiau i ysgolion allu cefnogi dysgwyr yn y modd gorau i fynd i'r afael â gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys nodi ffyrdd o amlygu'r sgiliau mewn gwahanol feysydd cwricwlwm, rhannu syniadau am dasgau a oedd yn debygol o ysbrydoli dysgwyr ac ennyn eu diddordeb, a sut i gyflwyno ystod eang o weithgareddau yn y Dystysgrif Her Sgiliau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai mwy o bwyslais ar ddatblygiad proffesiynol yn hyrwyddo agweddau mwy cadarnhaol tuag at gymwysterau sgiliau ehangach ymhlith ymarferwyr ac uwch-arweinwyr. Teimlai'r ymatebwyr y byddai hyfforddiant felly'n ychwanegu at y profiad addysgu a dysgu.

'Mae angen gwneud yn siŵr bod staff sy'n addysgu'r Her Sgiliau yn cael digon o hyfforddiant a chefnogaeth wrth addysgu'r gwersi hyn. I ryw raddau, mae'n cael ei gweld gan rai athrawon fel pwnc ychwanegol ar ben gwaith eu pwnc nhw, ac nid ydynt yn buddsoddi ynddi nac yn ei hystyried o ddifrif, gan ei gweld yn faich.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

'Dylai athrawon wneud mwy o gyrsiau i fod yn fwy addas i'r rôl. Dylid addysgu sgiliau bywyd mwy perthnasol.' [Dysgwr]

Cynigiodd ymatebwyr awgrymiadau penodol ar gyfer y sgiliau i'w cynnwys mewn cymhwyster newydd seiliedig ar sgiliau. Roeddent o'r farn y dylai'r sgiliau hyn gael eu diffinio'n gywir a'u deall gan bob dysgwr. Awgrymasant:

- osod mwy o bwyslais ar sgiliau meddal (sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu, gwaith tîm ac ati) a fyddai'n cyfrannu at gyflogadwyedd person ifanc;
- ffocws cryfach ar ddatrys problemau, a chymhwyso gwybodaeth;
- cydnabod sgiliau ymarferol;
- pwysleisio'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer byw'n annibynnol;
- sicrhau bod sgiliau'n berthnasol i brofiadau ac anghenion y dysgwyr eu hunain;
- defnyddio'r cymhwyster seiliedig ar sgiliau i hyrwyddo dwyieithrwydd; a
- sicrhau cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn yr awyr agored yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth.

'Dylid cynnwys mwy o sgiliau bywyd ymarferol hefyd yn 16 oed yn hytrach na sgiliau gwaith am fod y cymhwyster yn cael ei gynnig yn Safon Uwch hefyd.' [Dysgwr]

Roedd barn hefyd ymhlith ymatebwyr y dylai'r dull trawsgwricwlaidd sy'n sail i'r cwricwlwm newydd i Gymru gael ei adlewyrchu yn y ffordd yr ymdrinnir â'r Dystysgrif Her Sgiliau. Roedd ymatebwyr o'r farn bod datblygu'r cwricwlwm newydd yn gyfle i adolygu cynnwys cymhwyster seiliedig ar sgiliau drwy greu cysylltiadau llawer cryfach â'r themâu trawsbynciol sy'n sail i'r cwricwlwm newydd.

'Mae gan y cymhwyster ystod dda o sgiliau wedi'u hymgorffori yn y cwrs, ond gallai hwn fod yn gyfle i sgaffaldio'r themâu trawsbynciol yn yr heriau.' [Cynrychiolydd addysg bellach]

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd y sgiliau a fyddai'n ofynnol i ddysgwyr ym mywyd oedolyn, yn benodol y rheini sydd eu hangen at eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Roeddent o'r farn y byddai dysgwyr yn elwa ar ddeall y rhesymau dros gynnwys pob un o'r gwahanol sgiliau yn y cymhwyster. Ar adegau, awgrymodd ymatebwyr, a dysgwyr yn benodol, y byddent yn elwa ar ddysgu sgiliau mwy ymarferol fel rheoli arian a choginio yn ogystal â gwybodaeth ac arweiniad ynghylch cael swydd a llwyddo yn y gweithlu.

'Dod o hyd i swydd, sut mae gwneud cais a sut mae ymdrin â'r cyfweliad. Sut mae ymdopi â chael eich gwrthod. Gwneud busnes neu sut mae gweithio i fusnes. Beth yw'r blociau adeiladu, ac yn y blaen.' [Dysgwr]

'Gwneud y sgiliau'n fwy ymarferol. Buddsoddi mewn sgiliau bywyd perthnasol i'r dyfodol. Dod ag athrawon penodol i mewn sy'n addysgu'r gwersi hyn.' [Dysgwr]

Yn fwy bras, roeddent yn galw am gynnwys amrywiaeth ehangach (a mwy diddorol) o bynciau.

Ystyriwyd hefyd fod gweithredu o ansawdd uchel hefyd yn hanfodol er mwyn cyflenwi cymhwyster seiliedig ar sgiliau yn llwyddiannus. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen i weithredu ansawdd uchel fod ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer unrhyw gymhwyster seiliedig ar sgiliau.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi annog ysgolion i edrych tuag allan wrth roi'r Dystysgrif Her Sgiliau ar waith, drwy ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn y gymuned i nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau.

5.2.2 Amrywiad ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr

- Gweithwyr addysg proffesiynol oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi cael gwared ar y cymhwyster.
- Roedd dysgwyr yn llai tebygol o gynnig awgrymiadau ar gyfer y cwestiwn hwn.
- Teimlai pob grŵp o ymatebwyr fod angen diwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau ac y byddai'n elwa ar gael ei gweithredu'n well.

6. Barn ar yr Asesiad Effaith Integredig

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi barn ar yr effeithiau yr oedd Cymwysterau Cymru wedi'u nodi, gan gynnwys unrhyw effaith ar y Gymraeg ac unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

6.1 Effeithiau rheoleiddiol

Gofynnwyd tri chwestiwn am yr effeithiau rheoleiddiol yr oedd Cymwysterau Cymru wedi'u nodi. Roedd nifer gymharol isel o ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn ac roedd y themâu a godwyd yn eang. O ganlyniad, prin oedd yr amrywiadau amlwg yn y farn gan wahanol grwpiau o ymatebwyr ar gyfer y tri chwestiwn hyn.

A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai ddeillio o unrhyw un o'n cynigion? Os felly, esboniwch eich ateb.

Darparodd cyfanswm o 73 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r rhain, nododd 28 naill ai nad oeddent yn credu bod unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai godi o unrhyw un o'r cynigion neu nad oeddent yn siŵr. Felly, mae 45 o sylwadau wedi'u dadansoddi, a'r themâu canlynol a godwyd amlaf.

Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig ystyried effaith y cynigion ar grwpiau o ddysgwyr heb gynrychiolaeth ddigonol. Cyfeiriodd ymatebwyr yn benodol at grwpiau penodol o ddysgwyr, fel dysgwyr 'prin y'u clywir' a dysgwyr anabl. Cydnabuwyd y byddai cydraddoldeb yn cael sylw yn y cynigion, ond bod angen mwy o dryloywder yn y term 'anghenion rhesymol' pob dysgwr am fod hwn yn rhy amwys.

Codwyd un pryder y gallai bylchau mewn darpariaeth ymddangos efallai os gwaredir cymwysterau, heb unrhyw gymhwyster amgen ar gael. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr a gododd hyn yn cyfleu dau bryder: yn gyntaf, y gallai bylchau ymddangos os nad yw cymwysterau unigol ar gael rhagor; ac yn ail, pryder na fyddai rhai pynciau unigol ar gael rhagor ar wahân, dim ond wedi'u cyfuno'n feysydd dysgu a phrofiad.

Soniodd ymatebwyr hefyd y dylai canolfannau allu cael at gymwysterau TGAU o nifer o wahanol gyrff dyfarnu. Awgrymasant fod diffyg mynediad at gyrff dyfarnu heblaw CBAC yn cyfyngu ar yr opsiynau cymhwyster TGAU sydd ar gael.

A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol unrhyw un o'n cynigion? Os felly, esboniwch eich ateb.

Darparodd cyfanswm o 58 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r rhain, nododd 23 naill ai nad oeddent yn credu bod unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau effeithiau rheoleiddiol unrhyw un o'r cynigion neu nad oeddent yn siŵr. Felly, dadansoddwyd 35 o sylwadau, gan ymdrin ag amrywiaeth eang o themâu. Y themâu canlynol a godwyd amlaf.

Pwysleisiodd ymatebwyr ei bod yn bwysig cael cyfathrebu effeithiol drwy gydol y broses o weithredu'r cynigion i sicrhau bod pawb yn gwybod am y newidiadau a'r opsiynau cymhwyster sydd ar gael. Byddai diffyg tryloywder llawn yn arwain at ddiffyg hyder yn y system. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hybu ymwybyddiaeth a sicrhau cyfathrebu llawn ac effeithiol yn helpu i gyflawni'r tryloywder hwn.

Roeddent hefyd yn teimlo bod angen ymgynghori â grwpiau allweddol, gan gynnwys ymarferwyr, rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, pan ddatblygir cynigion manylach. Er enghraifft, nodwyd y dylid cynnwys pob rhanddeiliad allweddol, yn benodol cyflogwyr, yn y cyfnod cynllunio wrth wneud newidiadau i fanylebau/asesiadau TGAU.

Ystyriwyd bod amser digonol yn bwysig er mwyn i ganolfannau ac ymarferwyr wneud y paratoadau angenrheidiol i ymateb i weithredu'r cynigion. Er enghraifft, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd gwneud cynnwys cymeradwy ar gyfer cymwysterau TGAU ar gael 12 mis cyn addysgu cyntaf y cymwysterau. Byddai hyn yn rhoi cyfnod o 12 mis i'r ymarferwyr ddatblygu adnoddau i gyflenwi'r cymwysterau hyn.

Soniodd ymatebwyr hefyd y byddai gofyn digon o gyllid er mwyn gweithredu unrhyw gymwysterau newydd arfaethedig yn llwyddiannus. Byddai'r cyllid hwn yn benodol o bwysig i alluogi'r gweithlu addysg i gael digon o ddatblygiad proffesiynol er mwyn gweithredu cymwysterau newydd yn llwyddiannus.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar effaith reoleiddiol y cynigion hyn? Os felly, esboniwch eich ateb.

Darparodd cyfanswm o 46 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r rhain, nododd 28 naill ai nad oeddent yn credu bod unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau effeithiau rheoleiddiol unrhyw un o'r cynigion neu nad oeddent yn siŵr. Felly, ar ôl gwaredu'r sylwadau hyn, roedd 18 o sylwadau i'r cwestiwn hwn yn weddill. Ymdrinia'r sylwadau hyn ag ystod eang o themâu, felly roedd themâu a nodwyd o'r nifer cyfyngedig hwn o ymatebion yn aml yn cael eu codi gan un ymatebwr yn unig. Roedd nifer o'r rhain yn nodi themâu a godwyd eisoes drwy atebion ymatebwyr i'r cwestiynau blaenorol mewn perthynas ag effeithiau rheoleiddiol. Felly, dim ond pwyntiau newydd a godwyd gan yr ymatebwyr sy'n cael eu crynhoi isod.

Cododd ymatebwyr bryder ynglŷn â'r baich gwaith ychwanegol y byddai gweithredu'r cynigion yn ei olygu i ganolfannau ac ymarferwyr. Awgrymwyd, er mwyn i'r cwricwlwm newydd fod yn llwyddiant, y byddai angen digon o gefnogaeth ar y rheini y mae gofyn iddynt ei weithredu er mwyn gwneud hynny.

Awgrymwyd bod **rhaid ymgorffori'r Gymraeg ymhlith y sgiliau mewn unrhyw gymhwyster newydd** am y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dwyieithog yn yr un modd â sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Awgrymwyd y byddai'n heriol sicrhau cymhwysedd mewn cyflenwi cymwysterau cyfrwng Cymraeg (ni ymhelaethodd yr ymatebwyr hyn ar y cymhwysedd sy'n ofynnol).

Roedd barn y byddai'r lefel o ymddiriedaeth mewn canolfannau i asesu a chofnodi marciau'n gywir yn effeithio ar effaith gofynion cymedroli. Eglurwyd mai po fwyaf yr ymddiriedaeth a osodir mewn canolfannau i asesu a chofnodi marciau'n gywir, lleiaf i gyd yr effaith gymedroli sy'n ofynnol bob blwyddyn.

6.2 Effeithiau ar y Gymraeg a chydraddoldebau

Gofynnwyd dau gwestiwn ynglŷn â'r effaith ar y Gymraeg. Cyflwynir yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig fan hyn. Cyflwynir y themâu a godwyd yn aml ar gyfer y ddau gwestiwn gyda'i gilydd, oherwydd roedd cynnwys yr ymatebion a gyflwynwyd yn gorgyffwrdd.

Roedd nifer gymharol isel o sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r ddau gwestiwn hyn ac roedd y themâu a godwyd yn gymharol fras. O ganlyniad, prin yw'r amrywiadau amlwg ym marn y gwahanol grwpiau o ymatebwyr i'r cwestiynau hyn.

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?



Atebodd cyfanswm o 294 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 27% y byddai effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, dywedodd 23% na fyddai unrhyw effaith, ac roedd 45% yn ansicr a fyddai effaith. Darparodd cyfanswm o 80 sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (25 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith gadarnhaol; 11 gan y rheini a ddywedodd na fyddai effaith; 14 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith negyddol; a 30 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn caeedig).

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg?



Atebodd cyfanswm o 281 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 18% y byddai effaith gadarnhaol o ran trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, dywedodd 25% na fyddai effaith, ac roedd 49% yn ansicr a fyddai effaith. Darparodd cyfanswm o 54 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (13 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith gadarnhaol; 4 gan y rheini a ddywedodd na fyddai effaith; 15 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith negyddol; a 22 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn caeedig).

Mae'r themâu isod yn adlewyrchu sylwadau'r ymatebwyr mewn perthynas â'r ddau gwestiwn caeedig uchod ar y Gymraeg. Pwysig yw nodi mai'r themâu canlynol oedd y rheini a godwyd amlaf gan nifer cyfyngedig o ymatebwyr.

Dywedodd ymatebwyr y byddai cael pob cymhwyster ar gael yn ddwyieithog yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael at ystod eang o gymwysterau. Pwysleisiodd ymatebwyr yr effaith gadarnhaol y byddai hyn yn ei chael ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg, a fyddai'n cryfhau'r trefniadau cyfredol.

Roeddent hefyd yn teimlo y byddai'r cynigion yn helpu i sicrhau dyfodol y Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Byddai'r iaith yn fwy gweledol, a byddai'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[10] Gallai hefyd fod cynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

Credwyd hefyd y byddai cael y cyfle i gymryd cymwysterau yn Gymraeg yn effeithio'n gadarnhaol ar agwedd dysgwyr tuag at y Gymraeg. Efallai byddai dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg drwy'r ysgol yn mwynhau'r profiad o ddysgu sgiliau newydd a byddai eu hagwedd yn gadarnhaol tuag at yr iaith mewn addysg a byddent yn hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Felly, byddai profiadau felly'n ehangu cyfleoedd i ddysgwyr siarad Cymraeg.

[10] Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

Ystyriwyd bod cael darpariaeth ddwyieithog ymhlith y nodau o'r cychwyn cyntaf yn fwy effeithiol na cheisio 'ôl-osod' y Gymraeg yn y broses o gynhyrchu adnoddau, er enghraifft. Cynigiwyd hefyd y byddai angen monitro'n ofalus unrhyw 'agweddau masnachol ar gyflenwi'. Ni roddodd yr ymatebwyr unrhyw eglurhad ynghylch yr agweddau masnachol hyn. Soniodd ymatebwyr hefyd y gallai dysgwyr fod o dan anfantais os oes prinder adnoddau Cymraeg o ran argaeledd ac ansawdd.

Cafwyd y farn hefyd y byddai'r effaith ar dwf y Gymraeg yn fechan iawn nes bod mwy o ymarferwyr yn gallu cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd amrywiad canfyddedig yn ansawdd addysgu cyfrwng Cymraeg hefyd yn peri gofid. Awgrymwyd y byddai cael mwy o ysgolion cynradd dwyieithog yn helpu i sicrhau dyfodol y Gymraeg.

> *'Yr unig ffordd i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, ni waeth a ydynt yn dewis gwneud hynny neu beidio yn oedolyn, yw cael ysgolion cynradd dwyieithog. Mae'r dull symbolaidd cyfredol yn gwneud i ddysgwyr gefnu ar y Gymraeg am oes ac yn lleihau'r niferoedd sy'n dewis ieithoedd tramor modern.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Soniodd ymatebwyr y byddai dysgwyr, os gweithredir y cynigion, yn gallu cael eu hasesu yn iaith eu dewis a bodloni eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Pe na fyddai cymwysterau ar gael yn Gymraeg, byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar y cyfleoedd i ddysgwyr yn ystod addysg orfodol. Soniodd ymatebwyr hefyd ei bod yn rhaid i'r system sicrhau cynwysoldeb a hynny heb gyfyngu ar ddysgwyr i un iaith, gyda chymwysterau'n cael eu cynllunio gyda'r Gymraeg mewn golwg o'r cychwyn cyntaf.

> *'Dylai'r ymrwymiad i roi 'dewis i ddysgwyr ddysgu yn Gymraeg a Saesneg' olygu bod pob cymhwyster yn cael ei gynllunio a'i ysgrifennu gyda'r Gymraeg wrth wraidd y cynllun. Bydd hyn yn cefnogi myfyrwyr gyda'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Pe byddai cymwysterau nad ydynt yn ddwyieithog yn cael eu gwneud ar gael o hyd, byddai hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach drwy gydol eu haddysg orfodol.'* [Cynrychiolydd addysg bellach]

Amlygodd ymatebwyr rai materion neu bryderon ymarferol hefyd, fel y gallu i fwy o ysgolion addysgu yn Gymraeg ac i gyrff dyfarnu gyflenwi cymwysterau yn Gymraeg. Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas â gallu cyrff dyfarnu mewn ymateb i Egwyddor 2 (adran 3.2). Cododd eraill hefyd yr angen am fwy o adnoddau yn Gymraeg i gefnogi dysgwyr ac athrawon. Canfuwyd y gallai problemau godi os cyfieithir gwaith ymgeiswyr cyn ei farcio yn hytrach na'i farcio yn yr iaith wreiddiol.

Soniodd ymatebwyr hefyd am oblygiadau ariannol trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan bwysleisio bod angen lleihau dyblygu adnoddau. Soniodd ymatebwyr fod angen cael yr un cyllid i'r Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag, pryderwyd wrth ystyried a allai cyrff dyfarnu gynhyrchu'r amrywiaeth lawn o gymwysterau'n ddwyieithog, oherwydd byddai effaith ar gyfleoedd i ddysgwyr pe byddai cyrff dyfarnu'n tynnu rhai cymwysterau'n ôl.

Yn ogystal, awgrymodd ymatebwyr na fyddai cyrff dyfarnu yn Lloegr efallai'n darparu cymwysterau yn Gymraeg, oherwydd anawsterau'n cyrchu arbenigwyr ac arholwyr pwnc dwyieithog.

Er bod ymatebwyr o'r farn y gallai fod effaith gadarnhaol pe byddai pob cymhwyster ar gael yn Gymraeg, nodwyd bod angen i Cymwysterau Cymru sicrhau y byddai 'polisi absoliwt' i wneud hyn, gyda mwy o gyllid grant i'w gwneud yn ddichonadwy i gyrff dyfarnu gynnig y cymwysterau. Cododd ymatebwyr bryder am y cafeat oedd yn nodi y gall fod amgylchiadau lle gallai eithriadau i'r egwyddor hon fod yn ofynnol. Ond eto, ar y cyfan, ni ddylai'r cynnig danseilio hawliau cyfartal dysgwyr.

'Nid yw'n glir beth yw diben creu egwyddorion craidd ar gyfer ffurfio cymwysterau newydd, ond hefyd nodi y bydd amgylchiadau lle caiff yr egwyddorion hyn eu hanwybyddu. […] Cyfeiria'r ddogfen ymgynghori at bosibilrwydd defnyddio cyllid grant i gefnogi'r costau cychwynnol i gorff dyfarnu wneud cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid grant sydd ar gael i wneud hyn, a sicrhau ei fod yn ddigonol i'w gwneud yn ariannol ddichonadwy i gyrff dyfarnu gynnig cymwysterau'n ddwyieithog. Os nad yw hyn yn bosibl, ni ystyriwn y dylid cynnig y cymhwyster yng Nghymru. Credwn na ddylai'r uchelgais i gynnig ystod eang a chytbwys o gymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru gael ei fodloni ar draul sicrhau cydraddoldeb i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.' [Comisiynydd]

Cafwyd y farn hefyd y gallai'r ymgais i wneud pob cymhwyster ar gael yn Gymraeg er mwyn cael cyllid cyhoeddus arwain at gynnig llai o gymwysterau arbenigol yng Nghymru, am na fyddai rhai ar gael efallai yn Gymraeg. Credwyd y gallai hyn arwain at brinderau sgiliau, yn ogystal ag awgrymu bod y Gymraeg yn llai pwysig na'r Saesneg yn y cyd-destun hwn.

'Byddai eich ymgais at sicrhau mai dim ond cymwysterau y gellir eu cyflenwi yn Gymraeg a all gael at gyllid cyhoeddus yn sicrhau bod llai o gymwysterau arbenigol yn cael eu dilyn yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at brinderau sgiliau mewn meysydd arbenigol. Byddai hyn yn arwain naill ai at symud y swyddi hynny y tu allan i Gymru, neu'r gofyniad i recriwtio o'r tu allan i Gymru i'r swyddi hynny. Ni fydd hyn yn gwella unrhyw ansawdd na niferoedd siarad Cymraeg, pe byddai'r fath byth yn ddymunol.'
[Rhiant/gofalwr]

Fodd bynnag, roedd fel petai ychydig o ddryswch ynglŷn ag ystyr 'cyllid cyhoeddus' ac a fyddai canolfannau'n cael cyflenwi cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu heblaw CBAC.

Nodwyd hefyd oblygiadau ar gyfer dilyniant gan ymatebwyr a oedd yn teimlo bod gwell dilyniant yn bosibl i'r dysgwyr hynny sy'n cymryd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Credai'r ymatebwyr y gallai hyn arwain at gyfleoedd hyfforddiant neu astudio pellach yn Gymraeg, a fyddai er budd unigolion a'r gymdeithas yn y pen draw. Byddai angen sicrhau cyfleoedd felly ar gyfer astudiaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, cafwyd hefyd y farn fod prinder cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch, a allai gyfyngu ar effaith cymwysterau dwyieithog yn 16 oed.

'Gallai mabwysiadu a gweithredu Egwyddor 2, 'Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog', gael effaith gadarnhaol ar allu dysgwyr i ddewis sefyll cymwysterau mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i hynny, byddai llwybrau dilyniant yn y Gymraeg yn cael eu hagor, ymlaen o bosib i astudiaethau neu hyfforddiant pellach – ac o bosib wedyn i swyddi ble byddai'r sgiliau 'pynciol' a'r sgiliau Cymraeg yn cael eu defnyddio er budd yr unigolion hynny, ac i'r gymdeithas yn ehangach.' [Undeb athrawon]

'Dylai sicrhau bod pob cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ei gwneud yn haws astudio ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd, gobeithio, yn fwy deniadol i ddysgwyr. Gallai hyn arwain at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Mae angen inni sicrhau bod ganddynt wedyn y cyfle i barhau i wneud hynny mewn unrhyw addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn y dyfodol.' [Sefydliad trydydd sector]

Cododd ymatebwyr themâu hefyd sydd y tu hwnt i gyfrifoldeb cylch gwaith Cymwysterau Cymru neu'r ymgynghoriad.

- **Roeddent yn teimlo bod cyflenwi Cymraeg yn orfodol hyd at 16 oed, a'r cyfle i gymryd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion iaith y gweithle yng Nghymru.** Fodd bynnag, cafwyd barn fod y diffyg cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru o'i chymharu â rhanbarthau eraill y DU wedi arwain at anawsterau'n cadw gweithlu Cymraeg ei iaith.

- **Er bod ymatebwyr yn amlygu'r manteision clir sydd ynghlwm wrth ddysgu Cymraeg,** pwysleisiwyd hefyd fod angen cael ffocws ar safonau llythrennedd Saesneg, i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru'n gallu cystadlu ag eraill yn deg.

- **Roedd pryderon y gallai pwysau ar yr amserlen arwain at ddyrannu llai o amser i'r Gymraeg** os cyflenwir y cymhwyster 'sgiliau ehangach'. Os gwaredir y cymhwyster Cymraeg Ail Iaith, gallai hyn roi dysgwyr o dan anfantais, a hwythau'n colli eu cymhelliant, a byddai'r ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn dirywio. Nodwyd hefyd, pe byddai agweddau ar ddiwylliant a hanes Cymru yn rhan annatod o wersi, y byddai ymdeimlad o Gymreictod a chymhelliant i ddysgu'r iaith yn cael eu hannog.

- **Roeddent yn teimlo y gallai fod effaith negyddol ar gyfleoedd swydd i ymarferwyr di-Gymraeg.** Amlygodd ymatebwyr y farn y gallai ymarferwyr symud dros y ffin oherwydd eu prinder Cymraeg; codwyd pryder hefyd ynghylch yr effaith ar weithwyr proffesiynol tramor medrus, a allai osgoi Cymru.

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?



Atebodd cyfanswm o 278 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 17% y byddai effaith gadarnhaol i unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, dywedodd 24% na fyddai unrhyw effaith ac roedd 54% yn ansicr a fyddai effaith. Darparodd cyfanswm o 46 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i gefnogi eu hateb (12 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith gadarnhaol; 2 gan y rheini a ddywedodd na fyddai effaith; 10 gan y rheini a ddywedodd y byddai effaith negyddol; a 22 gan y rheini a oedd yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn caeedig).

Felly, mae'n bwysig nodi bod y themâu canlynol wedi'u codi amlaf gan nifer cyfyngedig iawn o ymatebwyr.

Teimlai'r ymatebwyr y byddai angen cael dewis eang o gymwysterau ar gael, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Wrth wneud hynny, byddai anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu gan yr amrywiaeth o gymwysterau ar gael ar wahanol lefelau.

'Mae darparu ystod ehangach o gyfleoedd i bawb, gyda chwricwlwm ehangach a mwy cynhwysol, yn nodwedd gadarnhaol i bawb.' [Consortiwm addysg rhanbarthol]

Crybwyllodd ymatebwyr y byddai'r cynigion yn sicrhau cynwysoldeb a derbyniad. Nododd ymatebwyr y byddai dysgwyr o wahanol gefndiroedd yn gallu arfer eu rhyddid dewis a sylweddoli eu llawn botensial. Soniodd ymatebwyr hefyd fod y dull hwn yn unol ag ethos y cwricwlwm newydd a'i fod yn cydnabod bod angen mwy o amser neu gefnogaeth ar rai dysgwyr i fodloni eu potensial.

Mynegodd ymatebwyr y farn fod cynwysoldeb effeithiol yn mynnu ymgysylltu gweithgar â'r holl randdeiliaid allweddol. Canfuwyd y byddai hyn yn galluogi i anghenion pawb gael eu hystyried, a fyddai'n cefnogi cyflawniad. Yn enwedig, roedd barn fod yn yr ymgynghoriad ddiffyg sylw i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, gyda'r ymatebwyr yn nodi bod rhaid cynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig ym mhob trafodaeth yn y dyfodol, a chydnabod amrywiaeth mewn ymarfer.

'Er enghraifft, bydd angen dehongli'r egwyddor 'teg a chydlynol' yn ofalus. Efallai na fydd yr hyn sy'n ymddangos 'yn deg' i un grŵp yn deg i un arall, yn ymarferol.' [Sefydliad trydydd sector]

'Rhaid i'r gyfres o gymwysterau ymdrechu i greu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol sy'n cefnogi cysylltiadau da rhwng pobl ac sy'n herio rhagfarn, anoddefgarwch a gwahaniaethu yn eu holl ffurfiau. I sicrhau hyn, rhaid i Cymwysterau Cymru ymgysylltu'n weithgar â phob rhanddeiliad allweddol ar faterion allweddol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.' [Cynrychiolydd addysg bellach]

Pwysleisiodd ymatebwyr ei bod yn rhaid sicrhau darpariaeth i ddysgwyr ADY, gyda chymwysterau sy'n hygyrch i bawb. Soniodd ymatebwyr y byddai angen i hygyrchedd fod yn brif ystyriaeth wrth gynllunio a chyflenwi cymwysterau. Os bydd nifer y cymwysterau'n cael ei leihau, rhaid sicrhau hygyrchedd. Ni cheir dehongli bod nifer isel yn manteisio ar gymhwyster yn golygu diffyg angen. Rhaid diogelu anghenion dysgwyr ADY wrth bennu a ddylid parhau i wneud cymwysterau ar gael.

'Os yw rhai cymwysterau'n cael eu gwneud yn fwy sylweddol gan grwpiau â nodweddion gwarchodedig, ni ddylid eu gwaredu ar sail niferoedd isel.' [Sefydliad trydydd sector]

Ystyriai'r ymatebwyr fod hygyrchedd yn hanfodol wrth brofi sgiliau ehangach a hanfodol dysgwyr; rhaid i bob dysgwr gael y cyfle i arddangos a datblygu sgiliau, ni waeth beth yw ei gefndir / cyd-destun economaidd-gymdeithasol. Soniodd ymatebwyr hefyd fod angen ystyried dewis iaith dysgwyr.

Soniodd ymatebwyr fod angen i bob cymhwyster fod yn gyraeddadwy a rhaid rhoi ystyriaeth briodol i ddysgwyr o gefndiroedd incwm is a gwahanol grwpiau ethnig, gan gynnwys y rheini nad Saesneg yw iaith y cartref iddynt, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Credwyd hefyd mai anodd yw barnu lefel effaith unrhyw un o'r cynigion yn ystod y dyddiau cynnar hyn oherwydd byddai'n dibynnu ar y dulliau asesu a gymhwysir. Byddai angen i unrhyw asesiad effaith a gwblheir archwilio a fyddai pob dysgwr, gan gynnwys y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac eraill heb eu cynnwys o dan nodweddion gwarchodedig, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion a safleoedd addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys y rheini ag Iaith Arwyddion Prydain (BSL), yn destun effaith negyddol gan y cynigion i leihau amrywiaeth a nifer y cymwysterau. Nododd ymatebwyr hefyd fod angen i'r asesiad effaith fod yn barhaus, yn dilyn gweithredu'r cynigion. Ystyriwyd hefyd fod ymgysylltu â dysgwyr ynglŷn â'r cynigion yn holl bwysig er mwyn gweithredu effeithiol.

'Yn ystod y dyddiau cynnar hyn, nid yw'n glir a fydd effeithiau cadarnhaol neu negyddol i rai grwpiau o ddysgwyr. Mae'n bwysig datblygu cyfres o gymwysterau y mae'n rhaid iddi ennyn diddordeb pob grŵp o ddysgwyr. Rhaid inni gofio bod y grŵp oedran 14–16 yn eu 'harddegau' a'i bod yn hanfodol ymgysylltu â hwy er mwyn iddynt ffynnu a datblygu'r pedwar diben.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Codwyd pryderon hefyd na chaiff siaradwyr di-Gymraeg, yn staff ac yn ddysgwyr, fod dan anfantais oherwydd y cynigion. Dylid dewis iaith y safle yn ôl dynameg ei staff a'i ddysgwyr; dylent fod yn rhydd i fabwysiadu iaith eu dewis.

Roedd hefyd barn fod **angen ystyried addysg hawliau dynol** wrth gynllunio cymwysterau'r dyfodol, i sicrhau bod Cymru'n bodloni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol a domestig.

Cododd ymatebwyr themâu hefyd sydd y tu hwnt i gyfrifoldeb cylch gwaith Cymwysterau Cymru neu'r ymgynghoriad.

- **Mynegwyd pryder y gallai'r cwricwlwm newydd gynyddu'r bwlch cyrhaeddiad,** gan niweidio'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a dysgwyr eraill heb eu cynnwys o dan nodweddion gwarchodedig (e.e. dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a safleoedd addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys y rheini ag Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf).

‘Mae’n bosibilrwydd cryf y bydd effaith ar y bwlch rhwng dysgwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer brydau ysgol am ddim a dysgwyr sy’n gymwys ar gyfer brydau ysgol am ddim, oherwydd gallai absenoldeb canllawiau cliriach ar gynnwys arwain at fylchau hanfodol yng ngwybodaeth llawer o ddisgyblion ynglŷn â 'chyfalaf diwylliannol', y gallai disgyblion mwy breintiedig ei chael o’u hamgylchedd bywyd cartref.’ [Gweithiwr addysg proffesiynol]

- **Mynegwyd pryder hefyd y gallai tynnu pynciau’n ôl effeithio’n negyddol ar les dysgwyr.** Gallai’r newid ymagwedd at addysg grefyddol osod cymunedau crefyddol penodol o dan anfantais. Gallai unrhyw gynnwys integredig yn y cwricwlwm newydd arwain at broblemau ynghylch cynnwys addysg grefyddol mewn canolfannau ffydd.

- **Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y byddai angen cyllid i ddarparu cymorth addas,** am fod integreiddio yn yr amgylchedd dysgu yn bwysig; mae angen i unrhyw fodelau a chynhyrchion cwricwlwm newydd sicrhau hyn.

7. Sylwadau pellach

Gofynnwyd i ymatebwyr rannu unrhyw beth arall yr oedd ganddynt i'w ddweud ynglŷn â'r wybodaeth a amlinellwyd yn 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'.

Os oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am yr wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddiwch y gofod isod.

Darparodd cyfanswm o 109 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig pellach am yr wybodaeth a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Cododd ymatebwyr amrywiaeth eang o themâu, a rhai ohonynt yn adlewyrchu neu'n ail-bwysleisio themâu a godwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Oherwydd natur fras y themâu a godwyd a nifer gymharol isel yr ymatebion (yn benodol gan rai grwpiau o ymatebwyr), prin oedd yr amrywiadau amlwg ym marn gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Mynegodd ymatebwyr farn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r broses ymgynghori neu ei chynnwys. Roedd hyn yn cynnwys mynegi cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddorion a'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad a bodlonrwydd cyffredinol ar gael y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

> *'[Mae ein sefydliad] yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn gefnogol iawn o'r cyfeiriad teithio cyffredinol. Mae gwneud newidiadau yn y dyfodol i gymwysterau yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gytunwyd yn gryfder ac edrychwn ymlaen at weithio'n adeiladol gyda Cymwysterau Cymru yn y dyfodol.'* [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Yn ystod y broses ddiwygio ac ymgynghori barhaus, teimlai'r ymatebwyr y byddai'n bwysig ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Byddai hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd parhaus i ymatebwyr eu hunain barhau i gyfrannu at ddiwygio cymwysterau (gan gynnwys cyfleoedd am ddeialog). Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen i sicrhau bod barn amrywiaeth o randdeiliaid allweddol (fel gweithwyr addysg proffesiynol, dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith) yn cael ei defnyddio i lywio unrhyw ddiwygio cymwysterau. Hefyd, nododd ymatebwyr fod cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol yn bwysig, i sicrhau bod rhanddeiliaid yn llawn ddeall unrhyw newidiadau arfaethedig i gymwysterau.

> *'O ystyried bod cymwysterau'n rhan o'r gwaith paratoi at fywydau gwaith, byddem yn ailadrodd pwysigrwydd sicrhau bod llais cyflogwyr, o gyflogwyr mawr a bach ar draws y sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector, yn cael ei glywed ac yn llywio datblygiad cymwysterau.'* [Corff cynrychiadol]

Cred ymatebwyr y byddai'n hanfodol bod unrhyw ddiwygio cymwysterau yn cynnal defnydd cyfredol a chymaroldeb cymwysterau a gymerir yn 16 oed ac yn hwyluso dilyniant ôl-16. Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hwn i bwysleisio y dylai cymwysterau yn 16 oed gefnogi dysgwyr i symud i astudiaeth sy'n benodol i bwnc ar lefel addysg bellach neu

addysg uwch, yn ogystal â sicrhau eu bod yn gymaradwy â rheini a gynigir y tu allan i Gymru. Mynegodd ymatebwyr bryder y byddai dysgwyr o dan anfantais os nad yw cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn cysylltu'n uniongyrchol â gofynion addysg ôl-16 a disgwyliadau cyflogwyr.

'Er nad yw graddau a chymwysterau Safon Uwch/UG yn cael eu hystyried ar gyfer newid radicalaidd, ni cheir newid y system asesu TGAU yn radicalaidd ychwaith, am fod pob llwyfan yn gam at y nesaf. Gallai plant yng Nghymru sydd am ddilyn pynciau academaidd fod y tu ôl iddi o ddifrif, yn enwedig y rheini o gefndiroedd mwy difreintiedig, os na fydd cyrsiau a chymwysterau TGAU yn drwyadl neu'n ddigon penodol i bwnc i ddilyn y meysydd hyn yn llwyddiannus ar lefel addysg uwch.' [Gweithiwr addysg proffesiynol]

Ystyriwyd gan ymatebwyr bod maint y diwygio sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y sector addysg yn heriol dros ben; mae angen digon o amser a hyfforddiant, ac amserlennu'r diwygio'n ofalus, i leihau'r baich a osodir ar weithwyr addysg proffesiynol. Mynegodd ymatebwyr bryder y byddai'r system addysg - a gweithwyr addysg proffesiynol eu hunain - yn cael trafferth yn addasu i'r holl ddiwygio cwricwlwm a chymwysterau sy'n digwydd yng Nghymru. Mae angen amser a hyfforddiant ychwanegol ar weithwyr addysg proffesiynol a'r rheini sy'n gyfrifol am brosesau marcio, arholi ac asesu er mwyn gwneud addasiadau. Yn ogystal, rhaid ystyried yn ofalus sut y byddai amseru diwygio cymwysterau yn plethu â diwygio'r cwricwlwm. Ar un llaw, mae maint y newid (ar ôl diwygio manylebau TGAU yn ddiweddar) yn heriol dros ben i weithwyr addysg proffesiynol ond, ar y llaw arall, byddai'r garfan gyntaf o ddysgwyr yn dal i weithio tuag at gymwysterau presennol heblaw bod newid i'r cymwysterau wedi'i amseru'n briodol.

'Dymuna [ein sefydliad] amlygu'r ffaith y bydd y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith cymwysterau yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod o newid mawr yn y sector addysg yng Nghymru. Mae newidiadau a mentrau eraill, gan gynnwys Cenhadaeth ein Cenedl a gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, eisoes yn rhoi pwysau sylweddol ar staff (a'u baich gwaith) drwy'r sector cyfan. Bydd felly'n hanfodol i Cymwysterau Cymru sicrhau bod digon o amser paratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig, er mwyn sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu paratoi'n briodol.' [Rheoleiddiwr]

Dywedodd ymatebwyr hefyd na chaiff diwygio cymwysterau golli golwg ar yr amcan eithaf, sef cyflawni'r canlyniad gorau posibl i ddysgwyr. Rhaid ystyried bod unrhyw ddiwygiad yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddysgwyr ac, fel y cyfryw, dylai penderfyniadau am gymwysterau gael eu sbarduno gan yr egwyddor hon. Cododd ymatebwyr y thema hon mewn perthynas â sicrhau nad yw diwygio cymwysterau yn cael ei ddiystyru, ond fe'i codwyd hefyd gan y rheini a fynegodd bryder am anghenraid diwygio'r cwricwlwm a chymwysterau mewn modd mor bellgyrhaeddol.

Cafwyd barn hefyd ymhlith ymatebwyr bod angen adolygu dulliau asesu ochr yn ochr â newidiadau i gymwysterau. Nododd ymatebwyr fod angen ystyried sut gallai neu dylai dulliau asesu gael eu diwygio ochr yn ochr â diwygio cymwysterau. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut byddai cymwysterau'n gysylltiedig â chamau dilyniant ac yn eu hadlewyrchu, sut byddai asesu drwy gamau dilyniant yn cael ei adlewyrchu mewn asesu ôl-16, sut ac a ddylid ystyried dulliau asesu digidol, ac a oes cyfle i gymwysterau roi mwy o bwyslais ar waith cwrs yn hytrach nag arholiadau.

Credai'r ymatebwyr fod cyfle i wneud newidiadau sylweddol i'r system addysg yng Nghymru, yn benodol drwy fynd i'r afael â diffygion presennol. Nododd ymatebwyr gyfle i'r broses o ddiwygio cymwysterau a'r cwricwlwm fod yn uchelgeisiol, yn drawsnewidiol ac yn greadigol, er nodwyd y byddai diwygio felly yn mynnu ymdrech gydunol gan yr holl randdeiliaid a chryn dipyn o waith caled. Pwysleisiodd ymatebwyr ei bod yn rhaid osgoi dychwelyd yn unig i strwythurau cwricwlwm a chymwysterau blaenorol oherwydd diffyg uchelgais ac arweinyddiaeth.

Codwyd amrywiaeth o themâu eraill yn llai aml gan ymatebwyr, ac yn eu plith:

- mynegi pryder ynghylch y broses ymgynghori, neu ei beirniadu;
- pwysigrwydd mynd i'r afael â datblygu sgiliau ehangach ymhlith dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â gyrfaoedd – ac awgrymu sut i fynd i'r afael â hyn;
- yr angen i gynnal elfennau craidd o gymwysterau, yn benodol gwybodaeth benodol i bwnc ac ymarferwyr arbenigol; ac
- ystyrir bod cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn sbarduno cynnwys, arferion addysgu a dulliau asesu'r cwricwlwm, gan beri straen i bobl ifanc, a bod rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn.

8. Y camau nesaf

Ochr yn ochr â'r dadansoddiad hwn o ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi dogfen ar wahân yn disgrifio ei benderfyniadau ynghylch sut y bydd yn llywio cymwysterau'r dyfodol y gellir eu cyllido'n gyhoeddus i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru. Wrth wneud ei benderfyniadau, mae Cymwysterau Cymru wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae dogfen penderfyniadau Cymwysterau Cymru ar gael i'w darllen ar-lein.[11]

Ar ôl penderfynu ar yr agweddau allweddol ar ei ymagwedd, tasg nesaf Cymwysterau Cymru yw ystyried amrywiaeth cymwysterau'r dyfodol i ddysgwyr 16 oed a ddylai fod ar gael.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon, bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer:

- Y cymwysterau a ddylai fod yn rhan o gynnig y dyfodol i bobl ifanc 16 oed. Bydd hwn yn cynnwys cynigion i'r amrywiaeth gyfan, gan gynnwys cymwysterau TGAU a chymwysterau eraill. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn holi pryd y dylid gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol ac ym mha drefn flaenoriaeth.
- Sut olwg ddylai fod ar gymwysterau TGAU y dyfodol. Ym mha feysydd pwnc y gellir eu cynnig, yn ogystal â'r math o gynnwys ac asesiadau y dylent eu cynnwys. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn holi pryd i wneud unrhyw newidiadau ac ym mha drefn.
- Y cymwysterau sy'n ofynnol i gefnogi un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Yma eto, bydd cynigion Cymwysterau Cymru yn ymdrin â'r newidiadau a allai fod yn ofynnol yn ogystal â sut a phryd y dylid gwneud y newidiadau hynny.

Dros y misoedd nesaf, bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio cyfres o gynigion clir ar gyfer ymgynghoriad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion a restrir uchod yn cau tua dechrau 2021. Bydd Cymwysterau Cymru yn cadarnhau ei benderfyniadau yn ystod haf 2021 cyn lansio cylch pellach o ymgynghoriadau yn hydref 2021 i gytuno ar gynllun manwl unrhyw gymwysterau newydd neu gymwysterau wedi'u diweddaru.

[11] https://qualificationswales.org/media/6018/ein-penderfyniadau.pdf